

CYNGOR BRO MORGANNWG

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 6 Mawrth, 2023.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S. Lloyd-Selby (Maer); Cynghorwyr Anne Asbrey, Julie Aviet, Gareth Ball, Rhiannon Birch, Bronwen Brooks, Gillian Bruce, Ian Buckley, Lis Burnett, Samantha Campbell, George Carroll, Christine Cave, Charles Champion, Janice Charles, Millie Collins, Marianne Cowpe, Pamela Drake, Vincent Driscoll, Anthony Ernest, Robert Fisher, Christopher Franks, Wendy Gilligan, Emma Goodjohn, Ewan Goodjohn, Stephen Haines, Howard Hamilton, Sally Hanks, William Hennessy, Nic Hodges, Mark Hooper, Catherine Iannucci, Gwyn John, Dr. Ian Johnson, Belinda Loveluck-Edwards, Julie Lynch-Wilson, Kevin Mahoney, Naomi Marshallsea, Michael Morgan, Jayne Norman, Helen Payne, Elliot Penn, Sandra Perkes, Ian Perry, Joanna Protheroe, Ruba Sivagnanam, Carys Stallard, Neil Thomas, Rhys Thomas, Steffan Wiliam, Edward Williams, Mark Wilson a Nicholas Wood.

765 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Maer y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

766 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr R. Godfrey a M.R. Wilkinson.

767 DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorydd J. Aviet	Eitem Agenda Rhif 5 – Dirprwy Enwebedig Cyd-bwyllgor Craffu Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd	Buddiant personol ond nid yn fuddiant rhagfarnus - penodwyd y Cynghorydd yn Ddirprwy Enwebedig Cyngor Bro Morgannwg ar Gyd- bwyllgor Craffu Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Arhosodd y Cynghorydd Aviet yn y cyfarfod tra roedd yr eitem hon yn cael ei hystyried.
Y Cynghorydd J. Aviet	Eitem Agenda Rhif 9(a) – Cynllun Busnes Cyfrif	Buddiant personol a rhagfarnus gan ei bod yn

	Refeniw Tai 2023/53; ac Eitem Agenda Rhif 11(c) – Cynigion Cyllideb Terfynol Cyfrif Refeniw Tai 2023/24 a Phennu Rhent 2023/2024	denant i'r Cyngor ond roedd ganddi eithriad dan y Cod Ymarfer Aelodau ac felly gallai siarad a phleidleisio ar yr eitem hon.
Y Cynghorydd J. Aviet	Eitem Agenda Rhif 9(g) – Polisi Tâl 2023/2024	Buddiant personol a rhagfarnus - aelod o'r teulu yn cael ei gyflogi gan y Cyngor. Roedd gan y Cynghorydd Aviet ganiatâd gan y Pwyllgor Safonau i siarad a phleidleisio ac arhosodd yn y cyfarfod tra roedd yr eitem hon yn cael ei hystyried.
Y Cynghorydd G. Bruce	Eitem Agenda Rhif 9(g) – Polisi Tâl 2023/2024	Buddiant personol a rhagfarnus – aelod o'r teulu yn cael ei gyflogi gan y Cyngor a gadawodd y cyfarfod tra roedd yr eitem hon yn cael ei hystyried.
Y Cynghorydd I. Buckley	Eitemau Agenda Rhifau 9(b) ac 11(a) – Treth Gyngor Anheddau Gwag: 2023/24	Buddiant personol a rhagfarnus – roedd y Cynghorydd Buckley yn berchen ar ail eiddo a gadawodd y cyfarfod tra roedd yr eitem hon yn cael ei hystyried.
Y Cynghorydd S. Campbell	Eitemau Agenda Rhifau 9(b) ac 11(a) – Treth Gyngor Anheddau Gwag: 2023/24	Buddiant personol a rhagfarnus – roedd y Cynghorydd Campbell yn berchen ar ail eiddo a gadawodd y cyfarfod tra roedd yr eitem hon yn cael ei hystyried.
Y Cynghorydd C. Champion	Eitem Agenda Rhif 9(g) – Polisi Tâl 2023/2024	Buddiant personol a rhagfarnus – aelod o'r teulu yn cael ei gyflogi gan y Cyngor a gadawodd y cyfarfod tra roedd yr eitem hon yn cael ei hystyried.
Y Cynghorydd J. Charles	Eitemau Agenda Rhifau 9(b) ac 11(a) – Treth Gyngor Anheddau Gwag: 2023/24	Buddiant personol a rhagfarnus – roedd y Cynghorydd Charles yn berchen ar ac yn rhentu ail eiddo a gadawodd y cyfarfod tra roedd yr eitem hon yn cael ei hystyried.

Y Cynghorydd V. Driscoll	Eitemau Agenda Rhifau 9(b) ac 11(a) – Treth Gyngor Anheddau Gwag: 2023/24	Buddiant personol a rhagfarnus – roedd y Cynghorydd Driscoll yn berchen ar ail eiddo/eiddo rhent a gadawodd y cyfarfod tra roedd yr eitem hon yn cael ei hystyried.
Y Cynghorydd A. Ernest	Eitem Agenda Rhif 9(g) – Polisi Tâl 2023/2024	Buddiant personol a rhagfarnus – aelod o'r teulu yn cael ei gyflogi gan y Cyngor a gadawodd y cyfarfod tra roedd yr eitem hon yn cael ei hystyried.
Y Cynghorydd S. Haines	Eitemau Agenda Rhifau 9(b) ac 11(a) – Treth Gyngor Anheddau Gwag: 2023/24	Buddiant personol a rhagfarnus – roedd y Cynghorydd Haines yn berchen ar ail eiddo/eiddo rhent a gadawodd y cyfarfod tra roedd yr eitem hon yn cael ei hystyried.
Y Cynghorydd W. Hennessy	Eitem Agenda Rhif 9(a) – Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai 2023/53; ac Eitem Agenda Rhif 11(c) – Cynigion Cyllideb Terfynol Cyfrif Refeniw Tai 2023/24 a Phennu Rhent 2023/2024	Buddiant personol a rhagfarnus gan ei fod yn denant i'r Cyngor ond roedd ganddo eithriad dan y Cod Ymarfer Aelodau ac felly gallai siarad a phleidleisio ar yr eitem hon.
Y Cynghorydd G. John	Eitem Agenda Rhif 9(f) – Cyllideb Derfynol 2023/24 a Chynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) 2023/24 i 2028/29	Buddiant personol a rhagfarnus gan ei fod yn Aelod o Glwb Pêl-droed Llanilltud Fawr ond roedd ganddo ganiatâd gan y Pwyllgor Safonau i siarad a phleidleisio ar yr eitem hon.

768 COFNODION –

PENDERFYNWYD – BOD cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2022 a'r cyfarfodydd Arbennig a gynhaliwyd ar 11 a 30 Ionawr 2023 yn cael eu cymeradwyo'n gofnod cywir.

769 CYHOEDDIADAU –

Dywedodd y Maer ei bod wedi mynd i bedwar digwyddiad ar ddeg arall ers cyfarfod diwethaf y Cyngor a diolchodd i'r holl blant yn y gwahanol ysgolion ledled Bro Morgannwg a oedd wedi cystadlu yn ei chystadleuaeth Cerdyn Nadolig. Bu'n

bresennol hefyd yn nigwyddiad blynyddol Cofio'r Holocaust a gynhaliwyd yn yr Oriel Celf Ganolog. Roedd hi hefyd wedi bod yn bresennol mewn digwyddiad i nodi blwyddyn ers i Rwsia ymosod ar Wcráin, lle cynhaliwyd munud o dawelwch i'r rhai a oedd wedi colli eu bywydau yn ystod y rhyfel. I gloi, atgoffodd yr holl Aelodau fod Sefydliad y Maer yn dal i dderbyn ceisiadau newydd am gymorth grant.

Cyhoeddiad yr Arweinydd

Cyhoeddodd yr Arweinydd farwolaeth drist y cyn Gyngorydd Anne Moore a oedd yn wraig i gyn Arweinydd y Cyngor, y cyn Gyngorydd Neil Moore. Bu'r cyn Gyngorydd Moore yn gyd-Aelod uchel ei pharch, yn gwasanaethu Cyngor Bro Morgannwg yn ei awdurdod rhagflaenol yn ogystal â bod yn gyn Aelod o Gyngor Tref y Barri lle bu'n Faer. Roedd hi hefyd wedi bod yn Gadeirydd ar amrywiaeth o Bwyllgorau, ac yn adnabyddus am ei sylw i fanylder, ei dycnwch a'i thegwch. Roedd hi wedi cynrychioli Ward Cadog a'i phreswylwyr a'i chymunedau ers dros 28 o flynyddoedd a mynegodd yr Arweinydd gydymdeimlad dwys ar ran holl Aelodau a swyddogion y Cyngor â theulu'r Cyngorydd Anne Moore yn ystod y cyfnod trist hwn. Gofynnodd yr Arweinydd i'r holl Aelodau ymuno â hi mewn munud o dawelwch fel arwydd o barch tuag at y cyn Gyngorydd Anne Moore.

Adleisiodd Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol, y Cyngorwyr Carroll, John a Dr. Johnson y sylwadau a fynegwyd gan yr Arweinydd, ac ar ran eu Grwpiau perthnasol mynegwyd cydymdeimlad â theulu'r cyn Gyngorydd Anne Moore.

Cafwyd munud o dawelwch fel arwydd o barch.

770 BARGEN DDINESIG PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD – DIRPRWY A ENWEBWYD GAN Y CYDBWYLLGOR CRAFFU (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio dyddiedig 13 Rhagfyr, 2022 fel y'i cynhwyswyd yn yr agenda.

PENDERFYNWYD – BOD y Cyngorydd J. Aviet yn cael ei phenodi'n ddirprwy enwebedig i gynrychioli'r Cyngor ar Gyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Rheswm dros yr argymhelliad

Er mwyn penodi dirprwy gynrychiolydd wedi'i enwi i Gyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

771 DEFNYDD O BWERAU BRYD Y PRIF WEITHREDWR (CX) –

PENDERFYNWYD – BOD y defnydd o Bwerau Bryd y Prif Weithredwr yn cael ei nodi.

Rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried Cyfansoddiad y Cyngor.

772 YMGYNGHORIAD Â THRETHDALWYR ANNOMESTIG (SM/PGCD) –

Er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Trethdalwyr Annomestig (Ymgynghori) 1992 (Offeryn Statudol Rhif 3171) gosodwyd hysbyseb yn gwahodd trethdalwyr annomestig i archwilio cynigion gwariant y Cyngor yn y Western Mail ar 22 Chwefror, 2023, ac i gyflwyno sylwadau ar hynny.

Roedd copïau o gynigion gwariant y Cyngor wedi'u hanfon ymlaen at drethdalwyr annomestig lleol, a wahoddwyd i gyflwyno unrhyw sylwadau erbyn 12.00 hanner dydd ar 6 Mawrth, 2023, a byddai unrhyw sylwadau a fyddai'n dod i law'n cael eu hadrodd gerbron y cyfarfod. Ar ôl i'r Arweinydd hysbysu'r Aelodau nad oedd unrhyw ymatebion wedi dod i lawr yn gysylltiedig â'r ymgynghoriad,

PENDERFYNWYD – BOD y sefyllfa'n cael ei nodi gan na chafwyd unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad.

Rheswm dros y penderfyniad

Er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Talwyr Ardrethi Annomestig (Ymgynghori) 1992 (Offeryn Statudol Rhif 3171).

773 DIWYGIADAU I GYFANSODDIAD Y CYNGOR (SM/PGCD) -

Roedd yr adroddiad yn cynnig diwygiadau i nifer o ddirprwyaethau, i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Hawliau Tramwy Cyhoeddus ac at ddibenion eglurder a chysondeb pellach.

PENDERFYNWYD –

- (1) BOD y newid i'r dirprwyaethau swyddogion perthnasol fel y nodir ym mhwynt 1 Atodiad 1 yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo a bod Cyfansoddiad y Cyngor yn cael ei ddiwygio'n unol â hynny.
- (2) BOD y cyfeiriadau at "ddiwrnodau clir" ar gyfer cyhoeddi agendâu / adroddiadau / hysbysiadau o fewn y Cyfansoddiad fel y nodir yn y tabl ym mhwynt 2 Atodiad 1 yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo a bod y Cyfansoddiad yn cael ei ddiwygio'n unol â hynny.
- (3) BOD y Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Is-bwyllgor Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn cael ei ddiwygio fel y cyfeirir ato ym mharagraff 2.5 a phwynt 3 Atodiad 1 yr adroddiad, a'i gymeradwyo a bod y Cyfansoddiad yn cael ei ddiwygio'n unol â hynny.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Er mwyn diweddarau'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion a darpariaethau perthnasol o fewn y Cyfansoddiad presennol.
- (2) Er eglurder.
- (3) Wedi ystyried deddfwriaeth.

774 CYNLLUN BUSNES CYFRIF REFENIW TAI 2023/53 (CYF) –

Cyfeiriodd yr Arweinydd at baragraff 2.4 adroddiad gwreiddiol y Cabinet, a amlinellai gynlluniau adeiladu newydd a chaffael gwerth £236m a fyddai'n cael eu cyllido dros 30 mlynedd y Cynllun. Ystyriai fod y Cynllun yn uchelgeisiol, a gobeithiai y gellid cyflawni mwy na hynny. Soniodd am faterion yn gysylltiedig â Safonau Ansawdd Tai Cymru, datgarboneiddio, diogelwch adeiladau, yr angen optimeiddio gwaith ôl-osod ar stoc tai presennol y Cyngor a phroblemau digartrefedd o fewn y sir, a chydabod bod angen 1200 o gartrefi newydd fforddiadwy.

Dywedodd fod Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel y Cyngor wedi ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 8 Chwefror, 2023, ac na chafwyd unrhyw sylwadau na chwestiynau'n gysylltiedig â manylion y Cynllun.

PENDERFYNWYD – BOD Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai 2023/53 sydd ynghlwm wrth yr adroddiad i'r Cabinet ar 2 Chwefror 2023 (cofnod rhif C215) yn cael ei gymeradwyo.

Rheswm dros y penderfyniad

Er mwyn gallu cyflwyno'r Cynllun uchod i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau gofynnol sef 31 Mawrth 2023.

775 ANHEDDAU GWAG Y DRETH GYNGOR: 2023/24 (CYF) –

Cyflwynodd yr Arweinydd yr eitem a gyfeiriwyd. Pwrpas yr eitem oedd ailgadarnhau'r penderfyniad blaenorol i beidio rhoi unrhyw ostyngiad yn y dreth Gyngor ar gyfer cartrefi gwag ac ail gartrefi wedi'u dodrefnu ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24.

Cynigiai'r adroddiad fod y Cyngor wedi ymgynghori ar godi premiwm y Dreth Gyngor yn 2023/24 yn gysylltiedig ag eiddo a oedd yn wag am gyfnod hir, ac yn 2024/25 yn gysylltiedig ag ail gartrefi. Roedd hyn yn unol ag amcan y Cyngor i gynyddu'r cyflenwad o dai ym Mro Morgannwg. Cyfanswm yr angen blynyddol am dai fforddiadwy ym Mro Morgannwg rhwng 2021 a 2026 oedd 1,206 o anheddau.

Amlinellodd yr Arweinydd y ddau gynnig, y naill i godi premiymau ar eiddo sy'n wag am gyfnod hir (dros 12 mis) o flwyddyn ariannol 2023/24 ac ar ail gartrefi o flwyddyn ariannol 2024/25. Atgoffodd yr Aelodau hefyd fod y Cyngor wedi cyhoeddi ei Strategaeth Cartrefi Gwag ym mis Mawrth 2020, a bod y canfyddiadau'n dangos ei bod i'n fwyfwy anodd cael hyd i gartrefi rhent o ansawdd, ynghyd â bod cynnydd mewn prisiau'n ysgogi landlordiaid i werthu. Dangosai hefyd fod y bwch rhwng rhenti'r lwfans tai lleol a rhenti'r farchnad yn llethu o hyd. Roedd hyn yn creu prinder tai ac angen yn sgil hynny, a byddai'n amlwg o fudd ariannol i'r Cyngor gyflwyno premiymau a allai gyfrannu'n rhannol at waith ymgysylltu a gorfodi ehangach. Cyfeiriodd hefyd at y 528 eiddo a oedd wedi bod yn wag ers cyfnod hir, a'r 402 o ail gartrefi yn y sir. Ystyriai fod cartrefi gwag yn draenio adnoddau cyffredinol y Cyngor, ac oherwydd yr esemptiadau y byddai cyfanswm yr eiddo y byddai hyn yn effeithio arnynt yn is na 930. Atgoffodd yr Aelodau fod y Cyngor wedi ymgynghori ar y

cynigion, a bod 385 o ymatebion wedi dod i law, gydag oddeutu 56% yn erbyn y cynigion, ond ychydig dros 40% o blaid codi premiwm ar ryw lefel neu'i gilydd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Dr. Johnson at y sylwadau a wnaed ganddo yng nghyfarfodydd blaenorol y Cyngor ynghylch arafwch y Cyngor i godi'r premiwm, ac roedd yn falch o weld hyn yn cael ei gynnig o'r diwedd. Roedd o'r farn fod manteision amlwg yn gysylltiedig â hyn a fyddai'n annog gwneud defnydd o'r newydd o gartrefi gwag. Gan gyfeirio at gynigion y Cabinet, o ran ei argymhellion, gofynnodd y Cynghorydd Dr. Johnson am gadarnhad gan yr Arweinydd ynghylch sut y ceid cytundeb ynghylch y premiymau y tu hwnt i'r cynnydd sefydlog cyfredol fesul cam y tu hwnt i'r cyfnod a nodwyd yn yr adroddiad, oherwydd fel y deallai o'r ddeddfwriaeth, byddai angen ymgynghoriad blynyddol ar gyfer hyn ar y naill neu'r llall neu'r ddau fath o breimiwm yn y blynyddoedd sydd i ddod. Gofynnodd hefyd a fyddai'r Prif Weithredwr a'r Arweinydd yn adolygu'r premiymau ac yn gosod y rhain o dan yr awdurdod dirprwyol o roi'r awdurdod hwnnw.

Gan gyfeirio at y cynigion, rhannodd y Cynghorydd Mahoney bryderon ynghylch cartrefi gwag, gan ddweud ei fod yn teimlo eu bod yn difetha cymunedau. Fodd bynnag, ystyriai fod y cynigion yn amharu ar hawliau dynol, ac roedd hynny'n destun pryder iddo, oherwydd teimlai nad cyfrifoldeb y Cyngor oedd rhoi cyfarwyddiadau i unigolion ynghylch sut i ddefnyddio'u heiddo. Roedd hefyd yn pryderu bod y Cyngor unwaith eto'n anwybyddu'r ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus, rhywbeth a oedd wedi digwydd o'r blaen, ac roedd ganddo gryn amheuan ynghylch y mater hwn.

Dywedodd yr Arweinydd, gan gyfeirio at y sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd Dr. Johnson, mai pwrpas yr argymhellion a gyflwynwyd gerbron y Cyngor oedd rhoi sicrwydd i'r Aelodau y byddai unrhyw adolygiad o daliadau neu newid i breimiymau yn cael eu cyflwyno unwaith eto gerbron y Cabinet a'r Cyngor i wneud penderfyniad yn eu cylch. Byddai hyn hefyd yn galluogi'r Cyngor i feincnodi yn erbyn Cynghorau eraill, er mwyn gweld i ba raddau yr oedd y cynllun yn llwyddo.

O ran y sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd Mahoney, dywedodd yr Arweinydd nad oedd y ffaith bod pobl yn berchen ar ddau gartref neu fwy yn broblem ganddi. Fodd bynnag, roedd yn rhaid defnyddio'r cartrefi hynny mewn modd cynhyrchiol, ac os nad oedd hynny'n digwydd, dylai'r perchnogion fod yn barod i wneud cyfraniad ychwanegol, a dyna oedd pwrpas sefydlu'r polisi.

PENDERFYNWYD –

(1) BOD y premiymau Treth Gyngor canlynol yn cael eu cymeradwyo:

- Codi premiwm Treth Gyngor 100% yn 2023/24 mewn perthynas ag eiddo gwag hirdymor, premiwm 150% yn 2024/25 a phremiwm 200% yn 2025/26.
- Codi premiwm Treth Gyngor 100% yn 2024/25 mewn perthynas ag ail gartrefi.

(2) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Pennaeth Cyllid i weithredu'r newidiadau ac i hysbysu perchnogion yr holl eiddo yr effeithir arnynt.

(3) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Pennaeth Cyllid i benderfynu ar geisiadau am eithriad dan y rheoliadau fel y nodir ym mharagraff 5.5 yr adroddiad (gweler adroddiad y Cabinet [16 Chwefror 2023](#).)

(4) Bod y Prif Weithredwr a'r Arweinydd yn adolygu'r premiymau hynny mewn blynyddoedd i ddod ac yn cyflwyno newidiadau i'r Cabinet a'r Cyngor i'w cymeradwyo fel y bo'n briodol.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Mae angen i'r Cyngor bennu ei bolisi ar gyflwyno premiymau ar gyfer ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor fel y diffinnir yn Adrannau 12A a 12B Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, fel y mewnosodwyd gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

(2) Er mwyn sicrhau bod yr holl gwsmeriaid y mae cyflwyno premiymau yn effeithio arnynt yn ymwybodol o'r newidiadau.

(3) Er mwyn sicrhau bod trefniadau yn cael eu rhoi yn eu lle i ystyried eithriadau.

(4) Er mwyn sicrhau bod y premiymau a godir yn cael eu hadolygu'n briodol.

(D.S. Gadawodd y Cynghorwyr Buckley, Campbell, Charles, Driscoll a Haines y cyfarfod tra roedd yr eitem hon yn cael ei hystyried.)

776 CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL DRAFFT CYNGOR BRO MORGANNWG 2023-24 (CYF) –

Roedd y Cabinet wedi ystyried yr adroddiad ar 16 Chwefror, 2023 (gweler cofnod Rhif C226) ynghyd â'r cyfeiriad gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol, ac wedi cyfeirio'r adroddiad i'w ystyried a'i gymeradwyo gan y Cyngor.

Roedd yr adroddiad yn esbonio sut yr aethpwyd ati i ddatblygu Cynllun Cyflawni Blynyddol drafft (2023-24) (Atodiad A yr adroddiad), canlyniad yr ymgynghoriad a'r newidiadau i'r Cynllun yn sgil hynny. Roedd y Cynllun yn disgrifio'r gweithgareddau a fyddai'n cael eu cyflawni yn 2023-24 i gyflawni'r amcanion dan sylw. Roedd y Cynllun hefyd yn manylu ar dair her dyngedfennol a fyddai'n ffocws allweddol i'r sefydliad yn 2023/24, sef costau byw, Prosiect Sero a chydnerthedd sefydliadol. Roedd pedwar Amcan Llesiant y Cyngor yn darparu'r fframwaith ar gyfer Cynllun Cyflawni Blynyddol 2023-24.

Byddai'r ymrwymadau o fewn y Cynllun Cyflawni Blynyddol yn cael eu hadlewyrchu mewn Cynlluniau Gwasanaeth Blynyddol, ynghyd â chyfres o fesurau perfformiad a fyddai'n manylu ar sut y byddai gwahanol wasanaethau'r Cyngor yn cyfrannu at gyflawni pedwar Amcan Llesiant y Cyngor.

Byddai cyhoeddi Amcanion Llesiant y Cyngor ar ddechrau'r flwyddyn ariannol yn galluogi'r Cyngor i gyflawni ei rwymedigaethau statudol o dan ddyletswyddau perfformiad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yr oedd y naill a'r llall yn gosod dyletswyddau penodol ar y Cyngor mewn perthynas â phennu amcanion ac adrodd. O dan Ddeddf

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), roedd yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei Amcanion Llesiant erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn, ac i barhau i adolygu'r rhain.

PENDERFYNWYD – BOD Cynllun Cyflawni Blynyddol Drafft Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer 2023-24, fel y'i atodir yn Atodiad A yr adroddiad i'r Cabinet ar 16 Chwefror 2023 (Cofnod Rhif C226) yn cael ei gymeradwyo.

Rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

777 STRATEGAETH GYFALAF 2023/24 A CHYNYGION TERFYNOL Y RHAGLEN GYFALAF 2023/24 I 2027/28 (CYF) –

Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd yr Arweinydd fod y Cabinet wedi ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror, 2023 (Gweler Cofnod Rhif C236), a'i fod yn darparu Strategaeth Gyfalaf y Cyngor ar gyfer 2023/24 yn Atodiad 1. Roedd y Strategaeth Gyfalaf yn rhoi fframwaith i esbonio sut roedd gwariant cyfalaf, cyllid cyfalaf a gweithgarwch rheoli trysorlys yn cyfrannu at gyflawni amcanion corfforaethol, ynghyd â throsolwg o'r modd yr oedd risg gysylltiedig yn cael ei rheoli a'r goblygiadau o ran cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.

roedd yr adroddiad yn nodi'r Rhaglen Gyfalaf Derfynol a gynigiwyd gan y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2023/24 hyd 2027/28 yn Atodiad 2.

Roedd y Cyngor yn wynebu cryn bwysau'n gysylltiedig â chwyddiant prisiau a'r argyfwng costau byw, lle gwelwyd cynnydd yng nghost deunyddiau a llafur. Roedd hyn wedi effeithio ar y cynlluniau cyfredol o fewn y Rhaglen Gyfalaf, a'r cyllid a oedd ar gael i gyllido cynlluniau newydd o fewn y Rhaglen Gyfalaf. Cyfanswm gwerth cynlluniau cyfalaf dros y pum mlynedd nesaf oedd £345m. Roedd hyn yn cynnwys £41m ar gyfer Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Band B (ac eithrio'r cynlluniau sydd yn yr arfaeth) a £167m ar gyfer y Rhaglen Gwella Tai.

Ers adrodd ar gynigion y Rhaglen Gyfalaf Ddrafft ym mis Ionawr, gwnaed nifer o newidiadau, gan gynnwys ailbroffilio'r cynlluniau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, cynnwys y Grant Cynnal Ysgolion, cynnwys dau gynllun sydd yn yr arfaeth (y cyfeiriwyd atynt yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn, mewn perthynas ag Ailddatblygu Sant Richard Gwyn a Cham 2 Ysgol Gynradd y Bont-faen, a gwaith ar ddau foeler Canolfan Hamdden yn Llanilltud Fawr a'r Bont-faen.)

Dywedodd y Cynghorydd Franks wrth yr Aelodau ei bod yn werth ystyried y cafwyd £11.5m o lithriant ym mlwyddyn ariannol 2021/2022, ac roedd y flwyddyn ariannol gyfredol yn cynnwys isafswm o £8m o lithriant. Teimlai felly nad oedd gan y Weinyddiaeth enw da am gyflawni Cyllideb Cyfalaf y Cyngor. Tynnodd sylw at y ffaith mai ond £42.7m o'r £88.2m a oedd yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn gyfredol a fyddai'n cael ei wario erbyn diwedd mis Ionawr, ac y byddai'r £8m o lithriant yn debygol o dyfu eto. Teimlai fod y ffigurau hyn yn amlygu'r ffaith bod y Weinyddiaeth wedi gwneud tro gwael â phreswylwyr Bro Morgannwg, Cyfeiriodd hefyd at y ffaith ei fod wedi herio datganiad bod gwaith yn parhau ar safle Ffordd Hayes ac er gwaethaf addewidion y byddai'r mater yn cael ei ymchwilio nid oedd wedi derbyn unrhyw wybodaeth bellach ar gynnydd y safle hyd yma. Cyfeiriodd hefyd at gynlluniau eraill

Ile cafwyd tanwariant neu lithriant. Teimlai hefyd fod yr ysgolion wedi cael cam ofnadwy, gan nad oedd gwaith cynnal wedi'i gyflawni, a thynnodd sylw hefyd at gyflwr y ffyrdd a'r pafinau, a holodd pam nad oedd y Cyngor wedi neilltuo arian ychwanegol i wella'r sefyllfa. Wrth gloi, teimlai nad oedd y gyllideb arfaethedig yn hygred, a bod y Weinyddiaeth yn gwneud cam â'i chymunedau.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau pellach wedi hynny,

PENDERFYNWYD –

- (1) BOD Strategaeth Gyfalaf 2023/24, fel y'i nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad i'r Cabinet ar 27 Chwefror 2023, yn cael ei chymeradwyo.
- (2) BOD y Rhaglen Gyfalaf derfynol ar gyfer y blynyddoedd 2023/24 i 2027/28, fel y'i nodir yn Atodiad 2 yr adroddiad i'r Cabinet ar 27 Chwefror 2023, yn cael ei chymeradwyo.
- (3) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau, i ychwanegu at Raglen Gwella Tai 2023/24 i 2027/28, i ddileu ohoni neu i drosglwyddo iddi neu ohoni fel y bo'n briodol.
- (4) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau, i ychwanegu at gyllidebau Adnewyddu Asedau 2023/24 i 2027/28, i ddileu ohonynt neu i drosglwyddo iddynt neu ohonynt fel y bo'n briodol.
- (5) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau, i ychwanegu at gynlluniau a ariennir gan A106, i ddileu ohonynt neu i drosglwyddo iddynt yn amodol ag ymgynghoriad â'r Aelodau fel sy'n ofynnol dan y broses gyfredol.
- (6) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau, i ychwanegu at Gynlluniau Rheoli Ynni, i ddileu ohonynt neu i drosglwyddo iddynt neu ohonynt.
- (7) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau, i ychwanegu at gynlluniau'r Gronfa Adeiladu Cymunedau Cryf, i ddileu ohonynt neu i drosglwyddo iddynt neu ohonynt.
- (8) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau, i ychwanegu at raglen Band B Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (cynlluniau Ysgolion yr 21ain Ganrif gynt), i ddileu ohoni neu i drosglwyddo iddi neu ohoni.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Er mwyn cymeradwyo Strategaeth Gyfalaf 2023/24.

- (2) Er mwyn pennu a chymeradwyo Rhaglenni Cyfalaf yn y dyfodol hyd at 2027/28.
- (3) Er mwyn gallu rheoli'r gyllideb Cyfalaf Tai'n effeithiol.
- (4) Er mwyn gallu rheoli'r cyllidebau Adnewyddu Asedau'n effeithiol.
- (5) Er mwyn gallu rheoli cynlluniau A106 yn effeithiol.
- (6) Er mwyn gallu rheoli Cynlluniau Rheoli Ynni'n effeithiol.
- (7) Er mwyn gallu rheoli'r Gronfa Adeiladu Cymunedau Cryfach yn effeithiol.
- (8) Er mwyn gallu rheoli'r rhaglen Band B Cymunedau Dysgu Cynaliadwy'n effeithiol.

778 STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS A BUDDSODDI 2023/24 A DIWEDDARIAD 2022/23 (CYF) –

Roedd yr adroddiad, a ystyriwyd gan y Cabinet ar 27 Chwefror 2023 (gweler Cofnod Rhif C237) yn rhoi'r newyddion diweddaraf am weithrediadau Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill hyd 31 Rhagfyr 2022. Roedd yr holl weithgareddau'n unol â strategaeth gymeradwy'r Cyngor ar gyfer Rheoli'r Trysorlys. Roedd manylion yr arian a fenthycwyd ac a ad-dalwyd, ac a fuddsoddwyd, wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno Strategaeth Rheoli Trysorlys a Buddsoddi 2023/24 arfaethedig yn Atodiad 1.

Roedd angen i'r Cyngor sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod Darbodus, a oedd wedi cael ei ddatblygu gan CIPFA ar ffurf cod ymarfer proffesiynol, ac a ddiwygiwyd ddiwethaf ym mis Rhagfyr 2021. I ddangos bod y Cyngor wedi cyflawni'r amcanion hyn, roedd y Cod yn nodi dangosyddion darbodus y dylid eu defnyddio a'r ffactorau yr oedd yn rhaid eu hystyried. Roedd y rhain wedi'u dangos yn Atodiad 1 yn rhan o'r Strategaeth.

Roedd hi'n ofynnol yn gyfreithiol hefyd i'r Cyngor gydymffurfio â Chanllawiau Llywodraeth Cymru ar Fuddsoddiadau, ac roedd y Cyngor wedi ystyried hyn wrth ddatblygu'r Strategaeth.

Disgwyliwyd £127m o fenthyciadau newydd yn y cyfnod ar gyfer Gwariant Cyfalaf newydd, a £24m arall i ddisodli benthyciadau a oedd yn aeddfedu, ac roedd hyn yn adlewyrchu'r gostyngiad yng ngallu'r Cyngor i fenthycu'n fewnol dros y cyfnod.

Roedd gwariant cyfalaf o'i ariannu drwy ddyled hirdymor yn creu dwy elfen o ran cost, sef llog ac ad-dalu'r prif swm a fenthycwyd. Roedd yr adnoddau yr oedd yn rhaid i'r Cyngor eu neilltuo bob blwyddyn i ad-dalu'r prif swm a fenthycwyd yn cael eu galw'n Ddarpariaeth Isafswm Refeniw ac roedd polisi'r Cyngor ar gyfer cyfrifo hyn wedi'i nodi yn yr adroddiad.

Roedd Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys 2023/24 ynghlwm yn Atodiad 2 yr adroddiad.

Roedd yn ofynnol i'r Cyngor gadw ei Arferion Rheoli Trysorlys (wedi'u cynnwys yn Atodiad 3 yr adroddiad) yn gyfredol, ac roedd y gweithdrefnau hyn ar gyfer rheoli prosesu Rheoli Trysorlys yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y tîm.

Cadarnhaodd yr Arweinydd ei bod yn ofynnol i'r Cyngor ymgymryd â 12 o arferion rheoli, ac roedd y rhain wedi'u nodi yn yr Atodiad. Roedd Arferion Rheoli Trysorlys y Cyngor wedi'u llunio'n unol â Treasury Management in the Public Services: Code of Practice and Cross-Sectional Guidance Notes (2021 edition). Roedd y rhain wedi'u hysgrifennu ar y cyd â Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys (DPRhT) y Cyngor a'r Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer 2023/24. Roedd y DPRhT yn esbonio sut y byddai'r Cyngor yn ceisio cyflawni ei amcanion a'i Bolisiâu Rheoli Trysorlys, a'r modd y byddai'n eu rheoli. Atgoffodd yr holl Aelodau mai cyd-gyfrifoldeb yr holl Aelodau Etholedig oedd y Cod Rheoli Ariannol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Champion at adroddiad diweddar a oedd wedi'i gyflwyno i Bwyllgor Ystâd Deddf yr Eglwys yng Nghymru oedd wedi arwain at gais i swyddogion ymchwilio i fuddsoddi mewn cronfeydd gwyrdd, ac i wyro oddi wrth gwmnïau tanwydd ffosil. Roedd yn cydnabod na fyddai'r Cyngor, o bosib, yn sicrhau'r enillion gorau o fuddsoddi yn y cwmnïau hyn, ond roedd angen iddo ddangos ei fod yn symud tuag at hyn.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Dr. Johnson at yr hyfforddiant pwysig a ddarparwyd yn ddiweddar ar Reoli Trysorlys, a chydabod nad oedd y mater dan sylw'n hawdd ei ddeall. Am y tro cyntaf ers iddo fod yn Aelod o'r Cyngor, roedd yn falch o weld incwm yn sgil buddsoddi, gan mai prin fu'r incwm hwnnw hyd yma. Gan gyfeirio at sylwadau'r Cynghorydd Champion, deallai o'r hyfforddiant fod rhan helaeth o incwm a buddsoddiadau'r Cyngor yn gysylltiedig ag awydd y Cyngor am risg, felly roedd buddsoddiadau fel arfer yn cael eu gwneud i sefydliadau a chanddynt sgôr credyd uchel, ac ystyried mai arian trethdalwyr oedd yn cael ei fuddsoddi. Cyfeiriodd at adroddiad diweddar ar ragolygon refeniw, lle'r oedd incwm yn debygol o fod yn £75k yn y flwyddyn ariannol nesaf, ond rhan bwysicaf Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor oedd cadw arian trethdalwyr yn diogel, a sicrhau bod modd defnyddio'r arian hwnnw pan fyddai ar y Cyngor ei angen.

Mewn ymateb i hyn, dywedodd yr Arweinydd mai mater ydoedd o daro cydbwysedd rhwng yr angen i sicrhau enillion ar fuddsoddiad a'r risg debygol i'r buddsoddiad hwnnw. Roedd hi'n falch o weld bod y Cyngor yn cael enillion ar ei fuddsoddiadau, ond yn cydnabod yr hoffai weld Strategaeth mor foesebol ag sy'n bosibl. Gobeithiai y byddai'r Aelodau'n cymryd mwy o ran yng ngwaith y Cyngor i ddatblygu ei Strategaeth ar ei fuddsoddiadau, yr hyn yr oedd y Cyngor yn ei wneud gyda'r buddsoddiadau hynny, a sut y byddai preswylwyr lleol yn elwa arnynt.

PENDERFYNWYD –

(1) BOD y polisi ar gyfer gwneud Darpariaeth Isafswm Refeniw yn 2023/24 yn cael ei gymeradwyo.

(2) BOD y Strategaeth Fuddsoddi a Rheoli'r Trysorlys arfaethedig ar gyfer 2023/24 gan gynnwys y penderfyniad penodol canlynol (a nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad i'r Cabinet ar 27 Chwefror 2023) yn cael ei chymeradwyo:

- Pennu'r Terfyn Awdurdodedig ar gyfer Dyled Allanol ar £225.439m ar gyfer 2022/23, £247.141m ar gyfer 2023/24, £276.773m ar gyfer 2024/25 a £305.927m ar gyfer 2025/26.
- Pennu'r Ffin Weithredol ar gyfer Dyled Allanol ar £212.292m ar gyfer 2022/23, £234.021m ar gyfer 2023/24, £263.349m ar gyfer 2024/25 a £292.295m ar gyfer 2025/26.
- Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Swyddog Adran 151 o fewn cyfanswm y Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol fel yr amcangyfrifwyd ar gyfer blynyddoedd unigol i sicrhau symudiad rhwng y terfynau y cytunwyd arnynt ar wahân ar gyfer benthyca a rhwymedigaethau hirdymor eraill.
- Pennu terfyn uchaf o £10m ar gyfer 2022/23, £10m ar gyfer 2023/24, £10m yn 2024/25 a £10m yn 2025/26 ar gyfer cyfanswm y prif symiau a fuddsoddiwyd am dros 364 diwrnod.
- Pennu swm y benthyca rhagamcanol sy'n aeddfedu ar gyfradd sefydlog ym mhob cyfnod yn ganran o gyfanswm y benthyca rhagamcanol sy'n gyfradd sefydlog ar gyfer 2023/24, fel a ganlyn:

	Terfyn Uchaf	Terfyn Isaf
Dan 12 mis	20%	0%
12 mis ac o fewn 24 mis	20%	0%
24 mis ac o fewn 5 mlynedd	30%	0%
5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	40%	0%
10 mlynedd a mwy	100%	0%

- BOD y Dangosyddion Darbodus a nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad i'r Cabinet ar 27 Chwefror 2023 yn cael eu cymeradwyo.
- BOD y Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys a nodir yn Atodiad 2 yr adroddiad i'r Cabinet ar 27 Chwefror 2023 yn cael ei gymeradwyo.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Er mwyn cytuno ar sail y cyfrifiad Darpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2023/24.

(2) Er mwyn paratoi'r Strategaeth Fuddsoddi a Rheoli'r Trysorlys Flynyddol fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

779 CYLLIDEB DERFYNOL 2023/24 A CATC 2023/24 I 2028/29 (CYF) –

Roedd y Cyngor yn wynebu pwysau demograffig a chwyddiant sylweddol yn 2023/24 ac i'r tymor canolig. Roedd y Cabinet wedi cymeradwyo'r Strategaeth Ariannol a diweddariad o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ym mis Hydref, ac ar yr adeg honno roedd bwlch ariannu o £28m yn 2023/24 a £50m yn y Tymor Canolig.

Bu swyddogion yn adolygu'r pwysau hynny a'r rhagdybiaethau ariannu yn sgil Cyllideb y Canghellor ym mis Tachwedd a chyhoeddiad Setliad Llywodraeth Cymru ddydd Mawrth, 13 Rhagfyr, 2022. Llwyddwyd i gadw pwysau i lawr, drwy symud ambell gynig buddsoddi o fis Hydref 2022 ymlaen a oedd erbyn hynny'n £1.010m, ond roedd hi'n fwy heriol cadw'r pwysau chwyddiant i lawr a phenderfynwyd ei bod yn briodol cefnogi'r pwysau ar gyfleustodau drwy wneud defnydd dros dro o gronfeydd wrth gefn, gan ddisgwyl y byddai prisiau'n gostwng yn y tymor hwy.

Roedd y newyddion yn y Setliad yn well na'r disgwyl. Sicrhawyd bod £227m ar gael ledled Cymru yn ychwanegol at yr ymrwymiad o 3.5% yn setliad y llynedd.

O ganlyniad i hynny, roedd y Cyngor yn wynebu bwlch ariannu llai o £9.255m ac yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet ar 19 Ionawr, 2023, ymgynghorodd ar becyn o arbedion gwerth £6.055m ar ôl defnydd untro o £3.2m o'r cronfeydd wrth gefn.

Roedd y pwysau ar gyllid wedi parhau i gael eu hadolygu'n barhaus, ochr yn ochr â sylwadau gan y Pwyllgorau Craffu ac ymgynghoriadau cyhoeddus ac ehangach. Cafwyd grantiau pellach i gefnogi Digartrefedd, ochr yn ochr â'r gydnabyddiaeth o'r angen i sicrhau mwy o ddarpariaeth ar gyfer dyfarniadau cyflog.

Cynigwyd cynnydd o 4.9% i'r Dreth Gyngor. Ar gyfer eiddo Band D, roedd hyn gyfwerth â £1.32 yr wythnos, ac yn cadw'r Dreth Gyngor ar lefel gymedrig ymhlith Awdurdodau Cymru.

Roedd rhaglen £7.378m o arbedion a mesurau effeithlonrwydd wedi'i chreu, yr oedd Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb wedi'u cynnal ar ei chyfer; ac roedd trefniadau olrhain a rheoli eisoes wedi'u sefydlu i sicrhau y byddai'r rhaglen honno'n cael ei chyflawni.

Yn rhan o ystyriaethau'r gyllideb, cynhaliwyd adolygiad sylfaenol o gronfeydd wrth gefn y Cyngor. Roedd y cronfeydd wedi'u hailalinio ag amcanion cyffredinol a risgiau'r Cyngor, ac wedi'u symleiddio i sicrhau mwy o dryloywder a rhwyddhau'r gwaith o'u rheoli.

Roedd y sylwadau yn sgil yr ymgynghoriad cyhoeddus a'r adolygiad craffu o Gyllideb ymgynghori mis Ionawr wedi'u hystyried wrth lunio'r cynigion terfynol.

Roedd y Swyddog Adran 151 wedi asesu cadernid yr amcangyfrifon a digonolrwydd y cronfeydd ac yn fodlon â'r ddwy agwedd honno.

Cyflwynwyd adroddiad atodol i'r Cyngor ar ôl derbyn y Setliad Terfynol gan Lywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar 28 Chwefror, 2023.

Setliad terfynol Bro Morgannwg oedd £202,797m, a oedd yn gynnydd o £16.782m yn y Cyllid Allanol Cyfun, gan gynnig £0.178m yn ychwanegol o gymharu â'r Setliad Dros Dro a gyhoeddwyd ar 14 Rhagfyr 2022.

Roedd yr effaith gyffredinol ar ochr ariannu'r gyllideb yn unig, gyda chynnydd o £0.178m yn y Cyllid Allanol Cyfun a £0.178m o ostyngiad yn y Dreth Gyngor yn sgil addasu am i lawr yr incwm a dybiwyd o'r premiymau ar y Dreth Gyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor.

Atgoffodd yr Arweinydd yr Aelodau ei bod yn ofynnol yn gyfreithiol i'r Cyngor gytuno ar gyllideb gytbwys, a bod y dull o wneud hynny'n dibynnu ar ganlyniad y drafodaeth ar y gyllideb. Atgoffodd yr Aelodau o'r heriau a nodwyd yn yr adroddiad a ystyriwyd yn flaenorol gan y Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu, ac ailbwysleisiodd fod y cylch cyllideb hwn wedi bod yn arbennig o anodd. Bu ansicrwydd aruthrol ac ystyried yr hinsawdd economaidd heriol, ac roedd hynny'n ei gwneud hi'n anodd cynllunio'n ariannol, yn enwedig ac ystyried yr hydref diwethaf, a'r angen i sefydlu strategaeth ariannol yn ystod yr anhrefn a achoswyd yn sgil y mini-gyllideb a gynhaliwyd gan Lywodraeth y DU. Roedd y Cyngor yn wynebu cyfanswm o £28m o fwlch ariannu. Atgoffodd yr Arweinydd yr Aelodau hefyd, fel yr adroddwyd ym mis Ionawr, fod y setliad dros dro ym mis Rhagfyr 2022 yn llawer gwell na'r disgwyl, ond bod bwch sylweddol yn bodoli o hyd. Bu'n rhaid rheoli nifer o flaenoriaethau er mwyn cyflwyno cyllideb gytbwys. Roedd hyn yn cynnwys cyllid tybiannol ar gyfer gofal cymdeithasol ac ysgolion, y cafwyd 5.1% a 7.0% o ychwanegiad at y naill a'r llall gan Lywodraeth Cymru. Roedd y Cyngor yn bod yn gwbl dryloyw ynghylch lefel y pwysau o fewn y gwasanaethau hyn, a chyfeiriodd at £8m ychwanegol o fewn y gyllideb, er enghraifft, ar gyfer gofal cymdeithasol, a oedd yn sylweddol uwch na'r swm ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau y gallai'r Cyngor gomisiynu'r gofal cartref angenrheidiol, gan fodloni anghenion y sector gofal preswyl, a oedd yn profi pwysau chwyddiant tebyg i'r Cyngor. Mewn perthynas â'r ysgolion roedd £10.4m yn ychwanegol, cynnydd o fwy na 9%, wedi cael ei gynnwys yn y gyllideb, gan gydnabod yr holl gostau chwyddiant yr oeddent yn eu profi, ond derbyniwyd y byddai angen sicrhau rhai arbedion effeithlonrwydd o hyd. Teimlai hefyd ei bod hi'n bwysig rhoi sylw i'r ffaith bod lefel Treth Gyngor y Cyngor yn is na chyfartaledd Cymru, ac y byddai hynny'n parhau i fod yn wir ar ôl gweithredu'r cynnydd o 4.9% a gynigiwyd, yn enwedig gan fod rhai awdurdodau yng Nghymru yn cyflwyno cynnydd 2 neu 3 phwynt yn uwch. Roedd dewisiadau anodd hefyd wedi'u gwneud wrth ganfod pecyn arbedion o £4.6m, ond roedd y Cyngor yn gweithredu'n gywir. Roedd yn rhaid i ffoedd a thaliadau godi'n unol â'r cynnydd mewn costau, ac roedd hi felly'n hanfodol i'r Cyngor dalu ei gostau ei hun.

Trodd sylw'r Arweinydd wedyn at y cwestiwn ynghylch defnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor, a chyfeirio at y ffaith bod adolygiad sylfaenol wedi'i gynnal ohonynt. Teimlai ei bod hi'n bwysig nodi bod y rhain wedi gostwng yn sgil effaith chwyddiant ar fuddsoddiadau'r Cyngor. Roedd y pwysau'n parhau, felly roedd hi'n debygol y byddai angen defnyddio'r cronfeydd wrth gefn dros y flwyddyn ariannol nesaf.

Wrth gloi, cyfeiriodd at yr atodiadau amrywiol a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad. Roedd Atodiad D yn trafod y cronfeydd wrth gefn, Atodiad E yn cynnwys gwerthusiad y Swyddog Adran 151 o'r amcangyfrifon a'r cronfeydd wrth gefn, ac Atodiad F yn cyfeirio at ganlyniad yr ymgynghoriad ar y gyllideb ac Atodiad G yn trafod yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb. Diolchodd i'r holl Aelodau hynny a oedd wedi cyfrannu at ymarfer ymgynghori'r gyllideb, gan ddiolch yn arbennig i swyddogion cyllid y Cyngor am lunio'r adroddiadau.

Cynigiodd yr Arweinydd y canlynol:

(1) Y dylid diweddarau'r Gyllideb Derfynol i gydnabod bod y ffigur Cyllid Allanol Cyfun wedi codi i £202.797m, sef cynnydd o £16.782m a gwelliant o gymharu â ffigur y Setliad Dros Dro o £6.604m a oedd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad a gyhoeddwyd ar 28 Chwefror, 2023, fel y nodwyd yn yr Adroddiad Atodol a rannwyd cyn y cyfarfod.

- (2) Cymeradwyo cynnydd o 4.9% i'r Dreth Gyngor.
- (3) Cymeradwyo Cyllideb 2023/24.

Eiliwyd hyn yn briodol gan y Dirprwy Arweinydd.

Dywedodd y Cynghorydd Carroll mai pennu'r gyllideb oedd y penderfyniad pwysicaf un y byddai'r Awdurdod yn ei wneud bob blwyddyn. Gan hynny, teimlai ei bod yn warthus cynnal y cyfarfod o bell pan ddylai'r cyfarfod gael ei gynnal wyneb yn wyneb, a hynny yn Siambr y Cyngor. Ystyriai fod y ffaith nad oedd yn gallu gwneud hynny yn fethiant arweinyddol ar ran y Weinyddiaeth. Ystyriai fod methiant arweinyddol i'w weld mewn agweddau eraill hefyd. Roedd nifer o enghreifftiau eraill o hyn wrth edrych ar y gyllideb. Teimlai ei bod hi'n annerbyniol bod y Weinyddiaeth yn cynnig cynnydd o 4.9% i'r Dreth Gyngor, ac ar yr un pryd yn torri gwasanaethau. Cyfeiriodd at enghreifftiau fel casgliadau bin du yn newid i gylch tair wythnos, cyflwyno ffioedd am wasanaeth casglu gwastraff gardd ac enghreifftiau eraill lle'r oedd ffioedd a thaliadau'n codi. Roedd yn poeni'n arbennig am lefelau cronfeydd wrth gefn y Cyngor, a chyfeiriodd at y ffaith od Cronfa Gyffredinol Wrth Gefn y Cyngor yn cynnwys £11m. Roedd yn cydnabod bod angen cronfeydd wrth gefn ar y Cyngor, ond ei ddadl oedd fod lefelau'r cronfeydd hynny'n uchel ac ystyried lefelau'r cronfeydd mewn Awdurdodau cyfagos.

Yng nghyd-destun y cronfeydd a oedd gan y Cyngor, ystyriai nad oedd y cynnydd a gynigiwyd i'r Dreth Gyngor yn angenrheidiol ac y gallai'r Cyngor rewi'r Dreth Gyngor am y flwyddyn ariannol hon, gyda'r Cyngor yn ysgwyddo'r gost drwy dynnu arian o'i Gronfeydd Wrth Gefn.

Cynigiodd y Cynghorydd Carroll y gwelliant a ganlyn:

Bod £4.239m yn cael ei dynnu allan o Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn y Cyngor i rewi'r Dreth Gyngor ar gyfer 2023/24.

Eiliwyd hyn yn briodol gan y Cynghorydd Charles.

Wrth ymateb i'r digwyddiad, dywedodd y Cynghorydd Dr. Johnson ei bod hi'n deg tybio na fyddai neb yn rhoi ystyriaeth o ddifri i unrhyw faterion ariannol a fyddai'n cael eu cynnig gan y Ceidwadwyr. Roedd yn pryderu nad oedd y gwelliant a gynigiwyd ond wedi'i gostio yn yr ystyr bod arian ar gael, ond nid oedd yn hysbysu'r Aelodau ynghylch yr hyn a fyddai'n digwydd yn y dyfodol, ac nid oedd felly'n ffordd synhwyrol iawn o drafod y mater. Ystyriai nad oedd y gwelliant yn ddim mwy nag ymddygiad gorchestol. Yn ei farn ef, roedd y Ceidwadwyr yn arbennig o broblemus ac ystyried y digwyddiad cyllidol a oedd wedi achosi cwmp yr economi yn nhymor yr hydref 2022, ac ar ben hynny'r ymgyrch raddol i fygu gwasanaethau cyhoeddus a gafwyd dros y degawd diwethaf. Roedd wedi'i ethol yn Gynghorydd i'r Cyngor am 11 o flynyddoedd, a thros y cyfnod hwnnw roedd wedi gweld gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu diberfeddu drwy ddiffyg cyllid yn rhan o'r mesurau cyni, yr ansicrwydd a gafwyd yn sgil y drychineb economaidd neu Brexit, a'r cyfan oll wedi cyfrannu at yr argyfwng costau byw presennol. Er mai'r Blaid Geidwadol fu mewn grym yn San Steffan, roedd y Blaid Lafur hefyd wedi bod yn gyfrifol am hyn yn ei farn ef, ar ôl treulio deuparth ei oes o dan Lywodraeth Doriaidd nad oedd Cymru wedi'i hethol a Phlaid Lafur a oedd yn cynnal y Llywodraeth Geidwadol drwy ymrwymo i system

gyfansoddiadol unoliaethol, y Ceidwadwyr oedd bob amser mewn grym fwy na heb. Roedd hyn wedi arwain at ostwng cyllidebau a thangyllido, gan greu gwasanaethau is na'r safon i bobl gyffredin yng Nghymru, ar yr un pryd ag yr oedd cost gwasanaethau lleol wedi cael eu trosglwyddo o'r Llywodraeth ganolog i drethdalwyr. Canlyniad hyn oedd cynnydd i'r Dreth Gyngor a oedd yn uwch na chwyddiant dros y degawd diwethaf, gyda threthdalwyr yn talu mwy am lai o wasanaethau. Roedd y cynnydd a gynigiwyd i'r Dreth Gyngor yn isel yng nghyd-destun chwyddiant ac yn y canol ar draws Cymru, ond roedd yn amlwg y byddai'r rhan fwyaf o aelwydydd yn cael llai o wasanaethau nag a gawsant yn y blynyddoedd cynt. Pryderai hefyd am gynigion i gyflwyno ffioedd am wastraff gardd, fod rhenti tai Cyngor wedi codi £300 ar gyfartaledd, ac ynghylch y bwriad i newid i wasanaeth casglu biniau du teirwythnosol. Dywedodd na allai gefnogi'r gwelliant a gynigiwyd gan y Ceidwadwyr, gan nad oedd wedi'i ariannu ac nad oedd esboniad ar ei gyfer.

Ystyriai'r Cynghorydd John fod Grŵp y Ceidwadwyr wedi bod yn cysgu ers Cyllideb ddiwethaf yr hydref, a oedd wedi gadael y DU mewn llanast. Diolchodd i'r Prif Weithredwr a'r swyddogion am eu hymdrechion i leihau effaith debygol yr heriau economaidd o flaen y Cyngor, oherwydd heb eu hymyrraeth gallai'r Cyngor fod wedi wynebu cynnydd tebyg i'r cynnydd o 9.9% yng Nghonwy. Atgoffodd yr Aelodau hefyd fod y Cyngor ar hyn o bryd yn y 15^{fed} safle o blith 22 o Awdurdodau, ac y byddai'n pennu ei Dreth Gyngor ar 4.9%. Ystyriai fod y gwelliant yn dangos diffyg parch tuag at Dîm Rheoli'r Cyngor a oedd wedi casglu'r gyllideb ynghyd ag Aelodau'r Cabinet mewn cyfnod o bryder mawr. Derbyniai nad oedd neb yn hoffi talu'r Dreth Gyngor, ond dyma oedd yr unig ffordd y gallai'r Cyngor bennu cyllideb gytbwys, a dywedodd na fyddai'n cefnogi'r gwelliant.

Wrth gyfeirio at y sylwadau blaenorol, dywedodd y Cynghorydd Haines ei fod yn teimlo nad oedd rhai Aelodau wedi sylwi ar y dirywiad ym Mro Morgannwg dros y blynyddoedd diwethaf, a theimlai fod y Weinyddiaeth Lafur wedi rhoi ergyd ddwbl i breswylwyr drwy gynyddu'r Dreth Gyngor, ond gan dorri gwasanaethau ar yr un pryd. Ni welai unrhyw reswm pam bod y Cyngor yn dal mwy o symiau yn ei gronfeydd wrth gefn nag Awdurdodau tebyg yng Nghymru. Gallai'r Cyngor leihau ei gronfeydd wrth gefn ac amddiffyn y preswylwyr, yn enwedig y rhai sydd ar eu gwaethaf, a dylai hyn fod yn rhywbeth y dylai Gweinyddiaeth y Cyngor a'i swyddogion ei ystyried. Roedd yn arbennig o bryderus ynghylch y cynigion i ymestyn casgliadau gwastraff bagiau du ac effaith hynny ar drigolion â phroblemau iechyd clinigol, gan y byddai'n rhaid iddynt storio cynhyrchion gwastraff am gyfnod hirach. Dywedodd y byddai'n cefnogi'r gwelliant.

Mynegodd y Cynghorydd Wilson bryder ynghylch y gwelliant a gynigiwyd, ac ystyried yr heriau o flaen y Cyngor wrth adfer ar ôl pandemig Covid, a'r goblygiadau yr oedd bellach yn ymdrin â nhw yn sgil rhyfel Wcraïn, a goblygiadau parhaus Brecit. Ystyriai bod ymagwedd y Cyngor at gronfeydd a ddelir yn ddarbodus, ac ni ystyriai fod y Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn yn dal symiau aruthrol ac ystyried yr heriau diweddar yr oedd y Cyngor wedi'u profi, a'i heriau presennol. Atgoffodd yr holl Aelodau mai ond unwaith y gellid gwario'r arian wrth gefn.

Roedd y Cynghorydd R. Thomas yn ystyried bod y cynigion yn ergyd ddwbl i breswylwyr y Fro, gan y byddai'r Dreth Gyngor yn codi a gwasanaethau'n cael eu cwtogi. Adleisiodd sylwadau ei Arweinydd Grŵp ynghylch y ffioedd arfaethedig am gasgliadau gwastraff gardd a'r ffioedd eraill a oedd yn codi, a hynny ar yr un pryd ag yr oedd y Cyngor yn dal £11m yn ei Gronfeydd Cyffredinol Wrth Gefn, nad oedd yn

swm dibwys o arian, i raddau cymesur, o'i gymharu ag Awdurdodau eraill fel Caerdydd. Teimlai y dylid gwneud defnydd llawer gwell o gronfeydd wrth gefn drwy gryfhau gwasanaethau a chadw taliadau eraill mor isel ag sy'n bosibl.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Ewan Goodjohn at y sylwadau blaenorol a wnaed gan y Cynghorydd Dr. Johnson, ynghylch y sylw a fyddai'n cael ei roi i'r Ceidwadwyr ar faterion fel cyllid, ac ystyriai fod hynny'n wir. Ystyriai fod y gwelliant a gynigiwyd gan Arweinydd y Grŵp Ceidwadol yn hynod. Yn ôl y ffigurau a gyflwynwyd ganddynt, byddai'r Cyngor wedi defnyddio ei gronfeydd wrth gefn i gyllido pwysau tebyg o ran costau mewn tair blynedd. Ni allai ond casglu y byddai'r Ceidwadwyr yn cynnig dewis arall ar gyfer y flwyddyn nesaf, nad oeddent eto wedi'i amlinellu, neu eu bod yn cynnig, ar ben y cynnydd i'r Dreth Gyngor y byddai ei angen y flwyddyn nesaf, beth bynnag fyddai'r cynnydd hwnnw, 4.9% yn ychwanegol yn y flwyddyn honno, a fyddai'n golygu y byddai'r preswylwyr yn wynebu biliau Treth Gyngor uwch fyth dros y blynyddoedd dilynol. Ystyriai fod y gwelliant yn eithriadol o anghyfrifol.

Ystyriai'r Cynghorydd Brooks fod y sylwadau a wnaed gan yr Aelodau Ceidwadol yn rhyfygus ac ystyried y sefyllfa a wynebai'r Cyngor bellach. Cyfeiriodd at 12 mlynedd o doriadau gan Lywodraeth Geidwadol y DU, yr oedd Llywodraeth Cymru wedi amddiffyn Cynghorau yng Nghymru rhagddynt i ryw raddau, ond wrth edrych dros y ffin ar gyllidebau a oedd yn cael eu pennu yn Lloegr, roedd hi'n werth nodi bod rhai Cynghorau'n wynebu methdaliad. Roedd y Grŵp Ceidwadol yn arddangos diffyg dealltwriaeth o gronfeydd wrth gefn y Cyngor, a'r defnydd ohonynt. Roedd cryn waith wedi'i wneud i gynllunio cyllideb gytbwys ac i amddiffyn y preswylwyr mwyaf agored i niwed ym Mro Morgannwg. Roedd yn rhaid rhoi'r sylw pennaf i wasanaethau statudol, a nododd na fyddai'n cefnogi'r gwelliant.

Roedd y Cynghorydd Charles o'r farn y byddai'r cynnydd arfaethedig i'r Dreth Gyngor yn taro'r preswylwyr mwyaf agored i niwed, a oedd ar yr un pryd yn wynebu heriau ariannol eraill. Teimlai mai'r amcan yn y cyfnod anodd hwn oedd arbed arian drwy beidio gwario ar bethau diangen, a chyfeiriodd at y penderfyniad i benodi Cyfarwyddwyr ychwanegol i'r Cyngor. Roedd hi hefyd yn pryderu ynghylch y cynigion i gyflwyno taliadau am gasgliadau gwastraff gardd, a byddai hyn yn cael yr effaith fwyaf ar bobl incwm isel, y rhai mwyaf agored i niwed a phobl oedrannus nad oedd ganddynt gerbydau i fynd â deunyddiau i'w hailgylchu i ganolfannau gwastraff. Roedd hi'n pryderu y byddai hyn yn arwain at gynnydd mewn achosion o dipio anghyfreithlon. Dywedodd nad oedd yn cefnogi'r cynnydd o 67% a gynigiwyd mewn rhent rhandiroedd. Dywedodd y byddai'n cefnogi'r gwelliant.

Disgrifiodd y Cynghorydd Perry y Dreth Gyngor fel treth a oedd ychydig yn annheg, a chydabod bod y Cyngor mewn sefyllfa anodd, gan gyfeirio at y ffaith bod Cynghorau yn Lloegr yn wynebu methdaliad posibl neu anawsterau ariannol, a bod rhai o'r sefyllfaoedd hynny'n fwy heriol na sefyllfa'r Cyngor. Teimlai fod polisïau Llywodraeth y DU dros y tair blynedd ar ddeg diwethaf wedi cyfrannu at sefyllfa bresennol y Cyngor. Pe na bai'r Cyngor yn codi'r Dreth Gyngor, roedd hi'n debygol y byddai hynny'n creu goblygiadau eraill, er enghraifft colli swyddi, ac roedd yn cydnabod nad oedd ond modd gwario'r cronfeydd wrth gefn unwaith. Pe bai'r Cyngor yn cytuno i rewi'r Dreth Gyngor am y flwyddyn ariannol nesaf, nid oedd unrhyw amheuaeth ganddo y byddai bron yn siŵr o orfod cyflwyno cynnydd mwy yn y flwyddyn ariannol ddilynol. Roedd o'r farn fod y gwelliant a gynigiwyd yn annoeth, ac y dylai grwpiau gwleidyddol roi'r gorau i chwarae gemau gwleidyddol a chydweithio mwy er budd cymunedau'r Fro.

Adleisiodd y Cynghorydd Hennessy sylwadau blaenorol y Cynghorwyr Carroll a Charles ynghylch penodi Cyfarwyddwyr ychwanegol a'r cynnydd arfaethedig o 4.9% ar adeg pan fyddai'r rhai mwyaf agored i niwed yn ei chael hi'n anodd talu am gasgliadau gwastraff gwyrdd. Dywedodd y byddai'n cefnogi'r gwelliant.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Fisher at y sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd Dr. Johnson ynghylch cyflwr yr economi ar hyn o bryd, a'r effaith ar breswylwyr. Cytunai â hynny, ond teimlai mai dyma pam bod angen i'r Aelodau ystyried cymeradwyo'r gwelliant gan y byddai'n helpu preswylwyr y Fro, a nododd y byddai'n cefnogi'r gwelliant.

Adleisiodd y Cynghorydd Perkes sylwadau'r Cynghorydd Brooks ynghylch goblygiadau defnyddio mwy o'r cronfeydd wrth gefn, ac effaith y 12 mlynedd diwethaf o fesurau cyni ar awdurdodau lleol yng Nghymru. Teimlai fod Llywodraeth Geidwadol y DU wedi camdrafod cyllideb ac economi'r DU, ac nad oedd y Grŵp Ceidwadol mewn unrhyw sefyllfa i feirniadu'r cynigion, a dywedodd na fyddai'n cefnogi'r gwelliant.

Pe bai'r Ceidwadwyr mewn grym, tybiai'r Cynghorydd Penn y byddent yn ddiotal ag arian y Cyngor, ac roedd yn falch nad felly yr oedd pethau. Gan gyfeirio at y gwelliant a gynigiwyd, holodd sut y byddai hynny'n cael ei ariannu, pa wasanaethau fyddai'n cael eu cwtdogi a sut y byddai'r Dreth Gyngor yn codi yn y blynyddoedd i ddod. Ystyriai fod y gwelliant yn annoeth heb unrhyw ystyriaeth o'r dyfodol - pennawd ar gyfer heddiw a oedd yn anghyfrifol o safbwynt ariannol. Dywedodd na fyddai'n cefnogi'r gwelliant.

Teimlai'r Cynghorydd Driscoll mai hawdd oedd beirniadu'r Blaid Geidwadol dros y 12 mlynedd blaenorol, ond cydnabu nad oeddent wedi helpu eu hachos eu hunain. Fodd bynnag, teimlai y dylai'r rhai a oedd yn beirniadu'r Ceidwadwyr edrych yn nes at adref ar gamgymeriadau Llywodraeth Cymru, gan gyfeirio at y £155m a wastraffwyd ar Ffordd Liniaru'r M4. Mewn termau real roedd o'r farn fod preswylwyr Bro Morgannwg yn talu trydedd gyfradd uchaf y Dreth Gyngor yng Nghymru. Dywedodd y byddai'n cefnogi'r gwelliant.

Wrth grynhoi, cyfeiriodd yr Arweinydd at y gwelliant - roedd hi'n amlwg nad oedd hwnnw wedi'i seilio ar unrhyw ragamcanion ariannol nac ar unrhyw wybodaeth ariannol a oedd wedi'i chynnwys yn yr adroddiadau a drafodwyd dros y chwe mis blaenorol. Tynnodd sylw'r Aelodau at Atodiad E yr adroddiad ac adroddiad y Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151 ar gadernid yr amcangyfrifon a digonolrwydd cronfeydd wrth gefn y Cyngor. Atgoffodd yr Aelodau hefyd mai polisi'r Cyngor ar Gronfeydd Cyffredinol Wrth Gefn oedd dal yr isafswm darbodus, a oedd wedi'i bennu'n £10m ar y pryd. Byddai lefel ragamcanol balans y Gronfa Gyffredinol yn 3.91% o'r gyllideb refeniw net ar ddechrau 2023/24, gan ostwng i 3.74%, ac ystyriwyd bod y lefel hon yn dal i fod yn briodol. Atgoffodd y Grŵp Ceidwadol nad oedd yn gêm a chyfeiriodd at y ffaith bod y Grŵp wedi ymffwrddro yn 2019 oherwydd y mathau o awgrymiadau yr oedd y gwelliant hwn yn eu cynnig. Tynnodd sylw at y ffaith bod y gyllideb wedi bod drwy'r Pwyllgorau Craffu, ac nad oedd yr un awgrym wedi'i gyflwyno y gellid edrych arno. Dywedodd y byddai'n pleidleisio yn erbyn y gwelliant.

Cynhaliwyd pleidlais ar gynnig diwygio'r Cynghorydd Carroll (fel y'i eiliwyd gan y Cynghorydd Charles) i rewi'r Dreth Gyngor ar gyfer 2023/24 ac i gymryd £4.239m ychwanegol allan o gronfeydd wrth gefn cyffredinol i gefnogi'r gyllideb.

Ni phasiwyd y diwygiad.

Gan gyfeirio at y drafodaeth gynharach ynghylch y gwelliant a gynigiwyd gan y Grŵp Ceidwadol, a'u sylwadau ynghylch effaith cynyddu'r Dreth Gyngor, dywedodd y Cynghorydd Dr. Johnson nad oedd y sylwadau a wnaed gan y Grŵp Ceidwadol a'r Grŵp Llafur wedi cydnabod effaith cynnydd o oddeutu £300 mewn rhenti tai Cyngor ar denantiaid Cyngor. Roedd effaith y cynigion i godi'r Dreth Gyngor mewn gwirionedd yn llai nag effaith codi'r rhent ar denantiaid y Cyngor. Yn wahanol i'r Grŵp Ceidwadol, byddai'n amlinellu sut y gellid sicrhau cynnydd o oddeutu 2% i'r Dreth Gyngor drwy ddefnyddio mesur lliniarol o oddeutu £2m. Esboniodd fod hyn yn amlwg yn fforddiadwy gan fod y Cyngor yn gyson yn gorgasglu oddeutu £1.5m i £2m o'r Dreth Gyngor bob blwyddyn. Cyfeiriodd at adroddiad Monitro Refeniw diweddar ynghylch y flwyddyn ariannol gyfredol a adroddai bod disgwyl i'r Cyngor orgasglu oddeutu £1.5m o'r Dreth Gyngor. Yn y flwyddyn ariannol flaenorol roedd y Cyngor wedi gorgasglu £2m o'r Dreth Gyngor. Er y gallai weld y byddai o fudd i'r Cyngor gael arian ychwanegol, ni chredai ei fod yn iawn i'r Cyngor orgasglu'n fwriadol bob blwyddyn. Ystyriai ei bod yn annheg cymryd y bonws hwn, ond peidio a'i gynnwys yn systemau ariannol arferol y Cyngor. Soniodd hefyd am gyflwyno'r gwasanaeth casglu Gwastraff Gardd, a'r bwriad iddo fod yn wasanaeth lle roedd yn rhaid tanysgrifio i dalu ffi. Nid oedd o reidrwydd yn cefnogi'r cynnig fel newid gwasanaeth. Pryderai na fu unrhyw drafodaeth ynghylch bioamrywiaeth yng nghyd-destun Datganiad Argyfwng Natur y Cyngor, ac y gallai codi tâl am y gwasanaeth olygu bod symiau mawr o wastraff gardd yn mynd heb eu casglu. Credai hefyd fod y cynnig, yn ei farn ef, yn rhoi amcangyfrif rhy isel o'r symiau y byddai'r gwasanaeth yn eu casglu, gan dybio y byddai defnydd o'r gwasanaeth tanysgrifio yn uwch na'r 20% a adroddwyd. Pe bai hynny'n wir, byddai'r tanysgrifiadau'n uwch a byddai'r Cyngor yn elwa ar gynydd mewn incwm.

I gloi, tynnodd sylw at y swm o incwm buddsoddi yr oedd y Cyngor yn debygol o'i dderbyn, gan gyfeirio at oddeutu £150k o incwm buddsoddi yn y rhagolygon diweddaraf ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Gan gyfeirio at yr adroddiad atodol a rannwyd â'r Aelodau, soniodd am y cyllid ychwanegol o £178k a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yn rhan o setliad cyllideb terfynol y Cyngor. Nid oedd ganddo unrhyw amheuaeth y gellid defnyddio'r cyllid ychwanegol hwn hefyd i ostwng y cynnydd a gynigiwyd i'r Dreth Gyngor.

Cynigiodd y Cynghorydd Dr. Johnson y Gwelliant canlynol:

Bod y cynnydd yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 2023/24 yn cael ei osod ar 2%.

Eiliwyd y gwelliant yn briodol gan y Cynghorydd Hooper.

Gofynnodd y Cynghorydd Dr. Johnson hefyd am gael Pleidlais wedi'i Chofnodi ar y mater, a dangosodd nifer gofynnol o Aelodau eu bod yn cefnogi hynny.

Gan gyfeirio at yr adroddiad technegol a gyflwynwyd gan y swyddogion mewn ymgynghoriad â'r Cabinet, roedd y Cynghorydd Franks o'r farn fod y cynigion a oedd yn cael eu trafod yn anwybyddu realiti a chyfeiriodd at y sylwadau a wnaeth yn

gynharach ynghylch methiant y Cabinet a'r Weinyddiaeth flaenorol. Cyfeiriodd at y cynigion o £2m o doriadau i'r gwasanaeth addysg, ac ystyriai fod ymateb blaenorol yr Arweinydd i'w gwestiwn ynghylch goblygiadau toriadau i ysgolion yn niwlog. Roedd sylwadau'r Arweinydd hefyd yn anghyson â datganiadau eraill a wnaed, sef y dymuniad i amddiffyn gwasanaethau statudol. Ystyriai fod Bro Morgannwg yn dirywio, ac nad oedd y Cabinet yn ymateb i safonau gwael, ac er y cytunai â sylwadau'r Arweinydd fod yr holl Aelodau'n gyd-gyfrifol am gyllid, nid oedd angen pregethu wrtho ynghylch hynny, ac nid oedd ganddo unrhyw ffydd yn y gyllideb a gynigiwyd.

Cydnabu'r Cynghorydd Ewan Goodjohn fod y gwelliant a gynigiwyd yn ymgais i daro cydbwysedd rhwng y gyllideb a gynigiwyd gan y Cabinet a'r gwelliant a oedd wedi methu gan y Ceidwadwyr. Gan gyfeirio at esboniad y Cynghorydd Dr. Johnson o blaid ei gynrig, ac yn enwedig y cynrig i godi tâl am gasglu gwastraff gardd, nid oedd unrhyw sicrwydd y byddai'r defnydd o'r gwasanaeth tanysgrifio yn fwy na'r hyn a adroddwyd wrth y Pwyllgor Craffu, ac atgoffodd yr Aelodau fod angen i'r Cyngor fod yn ddarbodus, ac nad oedd unrhyw sicrwydd y byddai'r Cyngor yn casglu swm mwy o'r Dreth Gyngor yn y blynyddoedd nesaf. Atgoffodd yr Aelodau fod y cynigion eisoes yn defnyddio mecanwaith liniaru drwy ddefnyddio tua £4.5m o'r cronfeydd. Byddai gwneud unrhyw ddefnydd pellach o'r cronfeydd yn anghyfrifol, ac ni fyddai ond yn datrys y sefyllfa dros dro. Roedd hi'n debygol y byddai angen codi lefelau'r Dreth Gyngor yn uwch eto yn y blynyddoedd dilynol, a dywedodd na fyddai'n cefnogi'r gwelliant.

Dywedodd y Cynghorwyr Carroll a Haines y byddent yn cefnogi'r gwelliant, oherwydd byddai'n well ganddynt weld cynnydd o 2% yn hytrach na'r cynnydd arfaethedig o 4.9%.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Wilson at y broses gyllidebol a gwaith paratoi'r gyllideb a oedd wedi'i gyflawni dros gyfnod o fisoedd. Dywedodd y bu'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd, yn enwedig ynghylch cyflwyno taliadau am ddarparu gwasanaethau Cyngor. Mewn gwirionedd, roedd yr Aelodau yn ei gyfanrwydd yn wynebu diffyg o £9m i'r gyllideb. Ystyriai fod hyn yn deillio'n rhannol o'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi gostwng cyllideb Llywodraeth Cymru, a oedd wedyn wedi effeithio ar awdurdodau lleol yng Nghymru. Doedd gan y Cyngor felly ddim moethusrwydd yn hyn o beth - roedd yn rhaid iddo gydbwyso ei gyllideb. Pe na bai'r Cyngor yn gwneud hynny, gallai wynebu gordal, ac nid oedd Cyllideb Hydref Llywodraeth y DU wedi helpu pethau. Tynnodd sylw hefyd at sylwadau'r Swyddog Adran 151 ynghylch cynaliadwyedd cronfeydd y Cyngor, ac adleisio hefyd sylwadau blaenorol y Cynghorydd Ewan Goodjohn ynghylch casglu'r Dreth Gyngor hyd at y lefelau yr oedd y Cyngor wedi'i wneud yn flaenorol, a'r defnydd o'r gwasanaeth tanysgrifio gwastraff gardd. Ystyriai fod y gwelliant a gynigiwyd yn dibynnu ar optimistiaeth, felly dywedodd na fyddai'n cefnogi'r gwelliant.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Perry at lefel y cronfeydd yr oedd y Cyngor wedi'u cronni dros amser. Roedd yn ymddangos iddo ef mai'r broblem oedd y ffaith bod y Cyngor weithiau'n methu gwario cyllid i ddarparu'r hyn yr oedd preswylwyr ei eisiau, a chyfeiriodd at gyflwr y ffyrdd ledled y sir, yr oedd angen eu trwsio.

Gan gyfeirio at y ffaith bod proses adrodd y gyllideb wedi bod gerbron amrywiaeth o Bwyllgorau, dywedodd y Cynghorydd Hodges ei bod hi'n glir iddo ef fod chwyddiant wedi cael cryn effaith ar y Cyngor, ac er bod gan y Cyngor gronfeydd wrth gefn,

roedd gwerth y cronfeydd hynny'n gostwng yn araf. Er ei fod yn cydnabod na ellid ond gwario'r arian unwaith, teimlai ei fod yn well gwario cyfran ohono. Roedd o'r farn fod y gwelliant a gynigiwyd yn ddarbodus, ac awgrymodd ei bod hi'n bryd i'r Cyngor edrych mewn ffordd radical ar y modd yr oedd yn gweithredu gwasanaethau, yn hytrach nag addasu'r gyllideb bob blwyddyn. Teimlai ei bod hi'n bryd i'r Cyngor benderfynu sut yr oedd am weithredu ei wasanaethau, nid yn unig y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu, ond sut y telid amdanynt. Dywedodd y byddai'n cefnogi'r gwelliant.

Wrth grynhoi, cyfeiriodd yr Arweinydd at y sylwadau ynghylch defnyddio'r cronfeydd fel mecanwaith liniarol, ac atgoffodd yr Aelodau fod y gyllideb a gynigiwyd mewn gwirionedd yn defnyddio'r cronfeydd i leihau'r cynnydd i'r Dreth Gyngor, drwy ddefnyddio £2.8m o'r Gronfa Gyffredinol, ac atgoffodd yr Aelodau hefyd fod cyllid y Cyngor eisoes wedi'i ddefnyddio i wrthbwysu pwysau presennol ar y gyllideb, gan gyfeirio at broblemau digartrefedd a'r cynnydd mewn prisiau ynni. Roedd hi felly'n glir fod y Cyngor eisoes yn cymryd camau i gefnogi ac amddiffyn ei wasanaethau. Cydnabu fod cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, ond byddai'r rhain yn gostwng yn y blynyddoedd nesaf wrth gyflawni prosiectau. Atgoffodd yr Aelodau hefyd fod y Cabinet, wrth gynnal proses y gyllideb, wedi ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio cronfeydd wrth gefn ychwanegol am ei fod yn ymwybodol o'r pwysau o flaen preswylwyr ym Mro Morgannwg. Fodd bynnag, roedd yr un pwysau hefyd yn effeithio ar y Cyngor, a byddai'r cynigion a gyflwynwyd gan y Cabinet yn creu cynnydd i'r Dreth Gyngor a oedd yn llai na hanner y gyfradd chwyddiant, Dywedodd na fyddai'n cefnogi'r gwelliant.

Cynhaliwyd pleidlais wedi'i chofnodi ar gynnig diwygio'r Cynghorydd Dr Johnson (fel y'i eiliwyd gan y Cynghorydd Hooper) i gynyddu'r Dreth Gyngor 2% ar gyfer 2023/24.

Aelodau	O blaid	Yn erbyn	Ymatal
Anne Asbrey	√		
Julie Aviet		√	
Gareth Ball		√	
Rhiannon Birch		√	
Bronwen Brooks		√	
Gillian Bruce	√		
Ian Buckley		√	
Lis Burnett		√	
Samantha Campbell	√		
George Carroll	√		

Christine Cave	√		
Charles Champion	√		
Janice Charles	√		
Millie Collins	√		
Marianne Cowpe	√		
Pamela Drake		√	
Vincent Driscoll	√		
Anthony Ernest	√		
Robert Fisher	√		
Christopher Franks	√		
Wendy Gilligan		√	
Emma Goodjohn		√	
Ewan Goodjohn		√	
Stephen Haines	√		
Howard Hamilton		√	
Sally Hanks		√	
William Hennessy	√		
Nic Hodges	√		
Mark Hooper	√		
Catherine Iannucci		√	
Gwyn John		√	
Dr. Ian Johnson	√		
Susan Lloyd-Selby		√	
Belinda Loveluck-Edwards		√	
Julie Lynch-Wilson		√	

Kevin Mahoney	√		
Naomi Marshallsea		√	
Michael Morgan		√	
Jayne Norman		√	
Helen Payne		√	
Elliot Penn		√	
Sandra Perkes		√	
Ian Perry		√	
Joanna Protheroe		√	
Ruba Sivagnanam		√	
Carys Stallard		√	
Neil Thomas		√	
Rhys Thomas	√		
Steffan Wiliam	√		
Eddie Williams		√	
Mark Wilson		√	
Nicholas Wood	√		
CYFANSWM	22	30	

Ni phasiwyd y diwygiad.

Roedd y Cynghorydd Hooper yn siomedig na chafodd y gwelliant ei gefnogi. Roedd yn gobeithio y gellid gwella proses ehangach y gyllideb y flwyddyn nesaf, oherwydd credai fod y broses yn cynnwys diffygion, ac ystyried Cynllun Corfforaethol y Cyngor a'i flaenoriaethau cysylltiedig. Yn ei farn ef, dylid ymdrin ag adennill costau llawn gwasanaethau'r Cyngor o dan fecanwaith y Cynllun Corfforaethol, a dylai'r codiadau arfaethedig yn y gyllideb a gynigiwyd fod wedi cael eu cyflwyno dros gyfnod hirach. O'i safbwynt ef, byddai'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cael ei phennu ar sail cost plws, ar alldro disgwylidig y flwyddyn, ac ystyriai fod hyn yn aneffeithlon, yn cynnal tagfeydd, ac nad oedd yn annog adrannau i arloesi. Yr oedd hefyd yn falch o glywed bod rhywfaint o symud tuag at gyllideb sylfaen sero, yn unol ag anghenion a chynlluniau, ond roedd adnoddau'n dal i fod yn brin i gynnal ymarfer cyllidebol llawn ar sail sero ar draws y Cyngor. Roedd wedi gwneud y pwynt hwn yn flaenrol mewn

Pwyllgorau Craffu ac yn y Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio, ond roedd yn cydnabod bod yr Arweinydd wedi rhoi ymateb blaenorol iddo ynghylch y mater.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Ewan Goodjohn at gynnydd chwyddiant ers 1997 ar sail ystadegau yng Nghymru a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Er ei fod yn cydnabod bod rhai Aelodau'n dymuno gweld cynnydd llai i'r Dreth Gyngor, y ffaith oedd bod y Dreth Gyngor yn dreth annheg gan nad oedd yn gwahaniaethu rhwng y rhai a oedd yn rhentu eiddo a'r rhai a oedd yn berchen ar eiddo neu a chanddynt forgais. Roedd y Cyngor mewn sefyllfa arnodd oherwydd nid oedd modd gostwng y Dreth Gyngor os nad oedd Llywodraeth Cymru yn derbyn digon o gyllid gan Lywodraeth y DU i adlewyrchu'r cynnydd yng nghostau'r Cyngor. O'i safbwynt ef, roedd y cynnydd a gynigiwyd gyda'r isaf yn hanes y Cyngor, ond byddai cynnydd is na hynny'n anghyfrifol oni fyddai modd cyllido hynny'n briodol. Roedd yn rhaid i'r Cyngor gadw lefel realistig o arian mewn cronfeydd wrth gefn i wynebu heriau'r dyfodol.

Roedd y Cynghorydd Cowpe yn pryderu nad oedd y Cyngor yn gwrando ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y gyllideb, nac ar ymatebion y Pwyllgorau Craffu, ac felly nad oedd dim wedi newid, gyda'r gyllideb yn aros fel yr oedd wedi'i chynnig. Gofynnodd a ddylai ymgynghoriadau ar-lein yn y dyfodol gynnig opsiwn am ymateb drwy e-bost. Roedd hi hefyd yn siomedig bod y Cyngor wedi penderfynu mynd rhagddo a chynyddu'r gost am y cadis storio du, a oedd yn cael eu defnyddio gan amlaf ar gyfer cewynnau a gwastraff hylendid. Roed hi'n bryderus y byddai pobl yn amharod i brynu'r cadis hylendid, gan olygu y byddai'r mathau hynny o wastraff yn cael eu taflu i ffwrdd mewn bagiau du. Dylid ystyried hyn yn annerbyniol yn y Gymru fodern, ac roedd hyn yn debygol o greu'r effaith fwyaf ar deuluoedd sy'n agored i niwed, yn enwedig teuluoedd rhiant sengl gyda'r penteulu'n fenyw. Byddai'r cynigion i godi tâl hefyd yn cael effaith anghymesur ar fenywod - roedd hi'n debygol mai nhw fyddai'r prif ddefnyddwyr oherwydd materion iechyd a llesiant amrywiol. Teimlai fod y tâl a gynigiwyd yn gwbl annerbyniol ac yn dreth ar fenywod, a gofynnodd am gadarnhad ynghylch pa asesiad effaith cydraddoldeb a oedd wedi'i gynnal ynghylch y mater. Roedd hi hefyd yn bryderu ynghylch y modd yr oedd y Cyngor yn cyfathrebu ynghylch y defnydd o fapiau piws, ac roedd angen mynd i'r afael â hynny. Roedd hi wedi cael gwybod bod preswylwyr yn cael eu hannog i beidio gofyn am fapiau piws ychwanegol, a olygai eu bod yn llai parod i ailgylchu. Gobeithiai y byddai'r Cyngor yn mynd i'r afael â hyn drwy annog preswylwyr i gofrestru a gwneud cais am fag piws, fel y gellid cynnal asesiad priodol o bob aelwyd ar sail ei hanghenion. Roedd yn ymwybodol bod swyddogion yn ymweld â theuluoedd ac yn eu cynghori, a mynegodd ddiolch am hynny. Fodd bynnag, hoffai weld ymweliadau'n cael eu hymestyn i gynnwys cartrefi presennol a oedd o bosib yn camddefnyddio'r system drwy osod nifer o fapiau porffor allan i'w casglu o ymyl y ffordd.

Mewn ymateb i sylwadau'r Cynghorydd Cowpe dywedodd y Cynghorydd Wilson mai'r bwriad oedd annog trigolion i ailgylchu mwy a bod hyn yn rhan o Strategaeth y Cyngor. Nid codi arian yn unig oedd wrth wraidd hyn - roedd yn fwy o ymgyrch i arbed arian drwy gynyddu cyfranogiad a chyfraddau ailgylchu. Roedd yn cydnabod bod agen cymorth ychwanegol ar rai unedau teulu mwy a oedd yn ei chael hi'n anodd ailgylchu eu gwastraff. O ran gwasanaeth bag piws y Cyngor, roedd angen taro cydbwysedd rhwng annog preswylwyr i ddefnyddio'r gwasanaeth a sicrhau nad oedd yn cael ei gamddefnyddio.

Awgrymodd y Cyngorydd Dr. Johnson nad oedd y gwelliant hwn wedi'i ystyried gan fod yr Aelodau wedi camddehongli ei sail resymegol ar gyfer cynnydd o 2%, am ei fod wedi esbonio sut y gallai'r Cyngor gyllido cynnydd o 2% i'r Dreth Gyngor. Atgoffodd yr Aelodau y gwelwyd cynnydd o oddeutu 9% i'r setliad a gafwyd gan Lywodraeth Cymru, sef y trydydd uchaf yng Nghymru ac oddeutu £10m yn fwy nag a ragwelwyd. Fodd bynnag, nid oedd y trafodaethau ynghylch y gyllideb wedi symud ymlaen o'r safbwynt gwreiddiol, lle tybiwyd bod y Cyngor yn wynebu canlyniadau difrifol a'r posibilrwydd o doriadau aruthrol i'w wasanaethau. Y gwir oedd nad oedd y Cyngor mewn anawsterau ariannol mawr, ac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf roedd ganddo £128m mewn cronfeydd wrth gefn defnyddadwy. Yr oedd hefyd yn siomedig ynghylch yr ymgynghoriad ar y gyllideb, ac yn teimlo bod amharch wedi'i ddwyn ar Gynghorwyr a'r broses Graffu. Yn ei farn ef, roedd tua 773 o ymatebion gan breswylwyr i'r ymgynghoriad wedi cael eu diystyru mewn cofnodion pan fu'r Cabinet yn ystyried y gyllideb derfynol yn ei gyfarfod ym mis Chwefror, ac yntau'n bresennol.

Gan gyfeirio at newidiadau i ffioedd a thaliadau, gyda'r Cyngor yn awyddus i adennill costau'n llawn, roedd hi'n bwysig i'r cyhoedd weld bod y Cyngor yn defnyddio'r incwm ychwanegol yn ddoeth. Pryderai hefyd fod cyfle wedi'i golli i ailystyried rhai o'r mân doriadau a gynigiwyd i wasanaethau, ac ystyried y cyllid ychwanegol a gafwyd yn y setliad terfynol, a chyfeiriodd at y Llyfrgelloedd Man Cynnes a thoriadau yn narpariaeth sachau tywod i breswylwyr a oedd dan fygythiad llifogydd. Yn lle hynny, penderfynwyd rhoi'r arian yn y banc yn hytrach na'i ddefnyddio er budd preswylwyr neu i leihau'r cynnydd arfaethedig i'r Dreth Gyngor. Roedd yn werth nodi ein bod yn dal i ddisgwyl am 33 o Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yn gysylltiedig â'r taliadau a gynigiwyd a'r cynnydd mewn taliadau am wasanaethau Cyngor, ac ailbwysleisiwyd y pryder a fynegwyd gan y Cyngorydd Cowpe ynghylch cadis hylendid ac effaith neilltuol y cynnydd hwnnw ar fenywod a rhai ar incwm isel. Gobeithiai y byddai'r Cabinet a'r swyddogion yn ailedrych ar y problemau hyn gan roi ystyriaeth i'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb wedi iddynt ddod ar gael, ac ailystyried y taliadau a gynigiwyd. Dywedodd y byddai'n pleidleisio yn erbyn y gyllideb a gynigiwyd.

Cyfeiriodd y Cyngorydd Mahoney at y diwylliant parhaus o daflu bai rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yng nghyswllt darparu cyllid i lywodraeth leol yng Nghymru. O'i ran ef, roedd y naill a'r llall yn gyfrifol i'r un graddau am yr amgylchiadau ariannol a effeithiai ar y Cyngor. Ystyriai fod Llywodraeth Geidwadol y DU a Llywodraeth Llafur Cymru yr un mor euog o wastraffu arian cyhoeddus ar yr un adeg ag yr oedd preswylwyr yn methu gwresogi eu cartrefi'n ddigonol. Mynegodd bryder hefyd ynghylch targedau ailgylchu'r Cyngor. Fel yr oedd yn gweld pethau, pe na bai'r targed tunelli cytunedig ar gyfer gwastraff bagiau du yn cael ei gyrraedd, byddai'r Cyngor yn gorfod talu cosbau ariannol. Nid oedd ychwaith o'r farn y dylid creu rolau Cyfarwyddwyr newydd tra'r oedd y Cyngor ar yr un pryd yn honni ei fod yn brin o gyllid. Dywedodd na fyddai'n cefnogi'r gyllideb.

Dywedodd y Cyngorydd Sivagnanam mai dewis syml oedd y gyllideb i'r Cyngor, gan mai nod ei gyllideb oedd amddiffyn y preswylwyr a oedd yn fwyaf agored i niwed a chynnal gwasanaethau statudol ar yr un pryd. Roedd hi'n cydnabod mai dewis gwleidyddol oedd y gyllideb, ac roedd yn ddewis yr oedd y Cabinet a'r Weinyddiaeth yn barod i'w wneud. Derbyniai'r pwyntiau a wnaed gan y Cyngorydd Cowpe yn gysylltiedig â chadis hylendid a'r gwasanaeth gwastraff bagiau piws. Sicrhaodd y Cyngorydd Cowpe fod hyn yn rhywbeth y byddai'r Cabinet yn ei fonitro, a gobeithiai

y byddai hynny'n dangos bod y Cabinet yn ymateb i faterion, yn enwedig materion cydraddoldeb.

Wrth grynhoi, cydnabu'r Arweinydd y gallai'r Cyngor wneud mwy hyd at bwynt penodol, ond credai mai'r cam nesaf o hyn allan fyddai mwy o drafodaeth adeiladol wrth drafod y gyllideb yng Nghymunedau Craffu'r Cyngor yn y dyfodol. Ychydig iawn o drafodaeth a oedd yn digwydd ar hyn o bryd. Mewn perthynas â sylw'r Cyngorydd Cowpe ynghylch codi am gadis hylendid, nododd fod y Cabinet wedi edrych yn dra manwl ar hyn, ond bod safbwynt y Cyngor yn rhesymol wrth iddo geisio talu costau. Roedd hi hefyd yn ystyriol o'r ffaith y gallai aelwydydd ar incymau is dalu mwy, ac roedd hi'n agored i gynnal trafodaeth ynghylch sut y gellid rhoi mwy o gefnogaeth i breswylwyr. Cydnabu y gallai fod yn rhywbeth i edrych arno yn y dyfodol.

O ran yr hyn a godwyd gan y Cyngorydd Hooper ynghylch arloesi mewn adrannau, roedd hi'n glir bod y Cyngor yn mynd i'r afael â hyn, a chyfeiriodd at y Big Fresh Catering Company. Gobeithiai weld mentrau eraill tebyg, yn enwedig o dan wedd yr agenda Ail-lunio Gwasanaethau. Ailbwysleisiodd ei phwyntiau blaenorol yn gysylltiedig â chronfeydd wrth gefn y Cyngor.

Gan droi at sylw'r Cyngorydd Mahoney ynghylch cyllid Llywodraeth Cymru, roedd tystiolaeth nad oedd yr un lefel o amddiffyniad yn cael ei rhoi i lywodraeth leol yn Lloegr ag yr oedd Llywodraeth Cymru'n ei rhoi i Gynghorau yng Nghymru. Ni fyddai'n dymuno bod yn eu sefyllfa hwy, ac roedd hi'n falch iawn o fod yng Nghymru.

Yna, cynhaliwyd pleidlais wedi'i chofnodi ar yr argymhellion yn yr adroddiad a'r adroddiad atodol, wedi'u cynnig gan yr Arweinydd a'u heilio gan y Cyngorydd Brooks.

Aelodau	O blaid	Yn erbyn	Ymatal
Anne Asbrey		√	
Julie Aviet	√		
Gareth Ball	√		
Rhiannon Birch	√		
Bronwen Brooks	√		
Gillian Bruce		√	
Ian Buckley	√		
Lis Burnett	√		
Samantha Campbell		√	
George Carroll		√	

Christine Cave		√	
Charles Champion		√	
Janice Charles		√	
Millie Collins		√	
Marianne Cowpe		√	
Pamela Drake	√		
Vincent Driscoll		√	
Anthony Ernest		√	
Robert Fisher		√	
Christopher Franks		√	
Wendy Gilligan	√		
Emma Goodjohn	√		
Ewan Goodjohn	√		
Stephen Haines		√	
Howard Hamilton	√		
Sally Hanks	√		
William Hennessy		√	
Nic Hodges		√	
Mark Hooper		√	
Catherine Iannucci	√		
Gwyn John	√		
Dr. Ian Johnson		√	
Susan Lloyd-Selby	√		
Belinda Loveluck-Edwards	√		
Julie Lynch-Wilson	√		

Kevin Mahoney		√	
Naomi Marshallsea	√		
Michael Morgan	√		
Jayne Norman	√		
Helen Payne	√		
Elliot Penn	√		
Sandra Perkes	√		
Ian Perry	√		
Joanna Protheroe	√		
Ruba Sivagnanam	√		
Carys Stallard	√		
Neil Thomas	√		
Rhys Thomas		√	
Steffan Wiliam		√	
Eddie Williams	√		
Mark Wilson	√		
Nicholas Wood		√	
CYFANSWM	30	22	

Pasiwyd y cynnig ac yna

PENDERFYNWYD –

- (1) BOD cymeradwyaeth yn cael ei rhoi i ddiweddarau'r Gyllideb Derfynol i gydnabod bod y ffigur Cyllid Allanol Cyfun terfynol wedi cynyddu i £202.797m a oedd yn gynnydd o £16.782m, ac yn welliant ar y ffigur Setliad Dros Dro o £16.604m a gynhwyswyd yn yr adroddiad a gyhoeddwyd ar 28 Chwefror 2023 fel y nodwyd yn yr Adroddiad Atodol a gylchredwyd cyn y cyfarfod.
- (2) BOD cynnydd o 4.9% yn y Dreth Gyngor yn cael ei gymeradwyo.
- (3) BOD y gyllideb ar gyfer 2023/24 yn cael ei chymeradwyo.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Er mwyn diweddarau'r gyllideb ar ôl derbyn y setliad terfynol gan Lywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar 28 Chwefror 2023.
- (2) Roedd pennu cyfradd flynyddol y Dreth Cyngor yn benderfyniad polisi allweddol i'r Cyngor.
- (3) Roedd pennu cyllideb wedi'i mantoli'n benderfyniad ac yn gyfrifoldeb statudol i'r Cyngor.

780 POLISI TÂL 2023/2024 -

Roedd gan y Cyngor ofyniad statudol o dan Ddeddf Lleoliaeth 2011 i baratoi datganiad ar bolisiâu tâl ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd 2023/24. Roedd angen cymeradwyo a chyhoeddi'r datganiad erbyn 31 Mawrth 2023. Roedd y ddogfen yn cynnig fframwaith i sicrhau bod gweithwyr yn cael eu gwobrwo'n deg ac mewn modd gwrthrychol, yn unol ag anghenion gwasanaeth y Cyngor, ac i sicrhau tryloywder ac agwedd agored yn gysylltiedig â'r broses.

Roedd y Polisi Tâl wedi cael ei ddatblygu'n raddol ers 2012 i ymgorffori'r canlynol:

- Canllawiau gan Lywodraeth Cymru, fel yr oeddent wedi'u cynnwys yn y ddogfen "Atebolrwydd tâl o fewn llywodraeth leol yng Nghymru" fel y cafodd ei diweddarau ym mis Tachwedd 2021;
- Newidiadau fel y'u rhagnodwyd gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (Diwygio) 2014, a ddaeth i rym o 1 Gorffennaf, 2014;
- Newidiadau fel y'u rhagnodwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 i sicrhau y byddai unrhyw newidiadau arfaethedig i gyflogau Prif Swyddogion (fel y'u diffinnir yn Neddf Lleoliaeth 2011) yn cael eu gwneud ar ôl ymgynghori â'r Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol;
- Roedd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wedi'i hystyried yn rhan o'r Datganiad Blynyddol ar Bolisi Tâl;
- Gwelliannau angenrheidiol yn sgil newidiadau i strwythur uwch reoli'r Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf.
- Effeithiau trafodaethau negodi tâl lleol a chenedlaethol a'r buddion cysylltiedig a ddyfarnwyd, ynghyd â darpariaethau'r Cyflog Byw Cenedlaethol.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at Adran 12 o Atodiad A a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad gwreiddiol i'r Cabinet, a thynnu sylw'r Aelodau at y gwahaniaethau cyflog rhwng graddau uchaf ac isaf y sefydliad. Roedd y rhain yn weddol wastad a dylid ystyried hynny'n beth cadarnhaol. Tynnodd sylw'r Aelodau hefyd at y cynnydd a wnaed o ran y bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

PENDERFYNWYD – BOD Polisi Tâl y Cyngor fel y'i atodwyd yn Atodiad A yr adroddiad i'r Cabinet ar 2 Chwefror 2023 (Cofnod Rhif C213) yn cael ei gymeradwyo.

Rheswm dros y penderfyniad

Er mwyn ymateb i'r gofyniad cyfreithiol dan Ddeddf Lleoliaeth 2011 a bod yn agored ac yn atebol mewn perthynas â sut mae'r Cyngor yn gwobrwyo ei staff.

(D.S. Datganodd y Cyngorwyr Aviet, Bruce, Champion ac Ernest fuddiant yn y mater uchod a gadawon nhw'r cyfarfod tra roedd yr eitem yn cael ei hystyried.)

781 CYNLLUN ARFARNU PRIF SWYDDOGION – DIWYGIADAU ARFAETHEDIG (CYF) –

Roedd y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau wedi ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 15 Chwefror, 2023, ac roedd trafodaeth fanwl wedi'i chynnal ar y mater lle'r oedd rhai wedi cefnogi arfarniadau mwy rheolaidd, a lle cynhaliwyd trafodaethau ar adolygiadau cymheiriaid.

Yn ei gyfarfod ar 16 Chwefror, 2023, roedd y Cabinet wedi cefnogi'r adroddiad a'i gyfeirio i'w gymeradwyo gan y Cyngor er mwyn cyflwyno'r cynllun newydd o 1 Ebrill, 2023.

Atgoffodd yr Arweinydd yr Aelodau fod y mater oedd gerbron y Cyngor wedi'i gyfeirio'n wreiddiol o'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol i sylw'r Cabinet, a bod adroddiad arno nawr yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan y Cyngor. Gan gyfeirio at yr addasiadau arfaethedig, nododd mai mân addasiadau oedd y rhain, a'u bod wedi'u ystyried yn wreiddiol gan Dîm Arweinyddiaeth Strategol y Cyngor, yr Undebau Llafur cydnabyddedig perthnasol a'r rhwydweithiau amrywiaeth a oedd wedi'u briffio ym mis Tachwedd 2022, yn ogystal â Phrif Swyddogion a Phenaethiaid Gwasanaeth, a gafodd eu briffio ynghylch y newidiadau arfaethedig ym mis Ionawr 2023. Dywedodd fod y cynllun addasedig y cynnwys amcanion CAMPUS a bod y targedau'n adlewyrchu proffil cymhwysedd a oedd yn cynnwys trafodaethau hyfforddi'n gysylltiedig â gwelliannau'n seiliedig ar gryfder. Roedd hyn yn cynnwys darlun cyflawn o berfformiad drwy adolygiadau cymheiriaid ac adborth cylch cyfan a oedd, yn ei barn hi, yn ffordd llawer mwy adeiladol o gynnal arfarniadau. Gobeithiai y byddai'r addasiadau a gynigiwyd yn cael eu hystyried mewn gwedd bositif ac adeiladol. Yr amcan oedd cyflwyno'r cynllun diwygiedig erbyn 1 Ebrill, 2023.

Roedd y Cynghorydd Haines o blaid yr egwyddorion wrth wraidd yr addasiadau, ond awgrymodd fod angen i'r Cyngor gael dealltwriaeth gliriach o'r diffiniad o gynhyrchiant, a'r technegau priodol i gynyddu hynny o fewn y gweithle. Ar hyn o bryd, fel yr oedd yn deall pethau, nid oedd cynhyrchiant unigolyn ond yn cael ei fesur mewn adolygiad blynyddol. Fodd bynnag, roedd cynhyrchiant yn fater parhaus, a dyma oedd y ffordd hawsaf i arbed arian a gwella perfformiad swyddogion, ac awgrymodd y dylai hyn fod wedi cael ei gynnwys yn rhan o'r gwaith i addasu'r cynllun presennol.

PENDERFYNWYD – BOD yr addasiadau arfaethedig ar gyfer Arfarniadau Prif Swyddogion fel yr adroddwyd i'r Cabinet ar 16 Chwefror 2023 (Cofnod Rhif C223) yn cael eu cymeradwyo er mwyn cyflwyno'r cynllun newydd o 1 Ebrill 2023.

Rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(D.S. Gadawodd pob Prif Swyddog y cyfarfod tra roedd yr eitemau Polisi Tâl 2023/2024 a Chynllun Arfarnu Prif Swyddogion - Addasiadau Arfaethedig yn cael eu hystyried ac eithrio'r Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol a arhosodd i roi cyngor gan adael y cyfarfod cyn i benderfyniad terfynol gael ei wneud ar yr eitemau hyn.)

782 GOSOD Y DRETH GYNGOR AR GYFER 2023/24 –

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y penderfyniad Treth y Cyngor diwygiedig a oedd wedi'i e-bostio at yr Aelodau cyn y cyfarfod.

Cynhaliwyd pleidlais wedi'i chofnodi ar yr argymhellion yn yr adroddiad a'r adroddiad atodol, wedi'u cynnig gan yr Arweinydd a'u heilio gan y Cynghorydd Brooks

Aelodau	O blaid	Yn erbyn	Ymatal
Anne Asbrey		√	
Julie Aviet	√		
Gareth Ball	√		
Rhiannon Birch	√		
Bronwen Brooks	√		
Gillian Bruce		√	
Ian Buckley	√		
Lis Burnett	√		
Samantha Campbell		√	
George Carroll		√	
Christine Cave		√	
Charles Champion		√	
Janice Charles		√	
Millie Collins		√	
Marianne Cowpe		√	

Pamela Drake	√		
Vincent Driscoll		√	
Anthony Ernest		√	
Robert Fisher		√	
Christopher Franks		√	
Wendy Gilligan	√		
Emma Goodjohn	√		
Ewan Goodjohn	√		
Stephen Haines		√	
Howard Hamilton	√		
Sally Hanks	√		
William Hennessy		√	
Nic Hodges		√	
Mark Hooper		√	
Catherine Iannucci	√		
Gwyn John	√		
Dr. Ian Johnson		√	
Susan Lloyd-Selby	√		
Belinda Loveluck-Edwards	√		
Julie Lynch-Wilson	√		
Kevin Mahoney		√	
Naomi Marshallsea	√		
Michael Morgan	√		
Jayne Norman	√		
Helen Payne	√		

Elliot Penn	√		
Sandra Perkes	√		
Ian Perry	√		
Joanna Protheroe	√		
Ruba Sivagnanam	√		
Carys Stallard	√		
Neil Thomas	√		
Rhys Thomas		√	
Steffan Wiliam		√	
Eddie Williams	√		
Mark Wilson	√		
Nicholas Wood		√	
CYFANSWM	30	22	

PENDERFYNWYD –

(1) Y DYLLID nodi y cyfrifodd y Cabinet (y Weithrediaeth) yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr 2022 y symiau canlynol ar gyfer y flwyddyn 2023/24 yn unol â'r rheoliadau a wnaed dan Adran 33(5) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992:-

a) 62,334 – sef y swm a gyfrifwyd gan y Cabinet (y Weithrediaeth) yn unol â rheoliad 3 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) 1995, fel y'u diwygiwyd, fel sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn.

(b) Rhan o ardal y Cyngor

Y Barri	20,914
Tregolwyn	375
Y Bont-faen gyda Llanfleiddan	2,839
Dinas Powys	4,028
Ewenni	450
Llancarfan	486
Llandochoau	951
Llandŵ	441
Llanfair	384
Llan-gan	464
Llan-faes	261

Llanilltud Fawr	4,305
Llanfihangel	241
Penarth	11,643
Pendeulwyn	352
Pen-llin	1,065
Llanbedr-y-fro	553
Sain Tathan	1,601
Saint-y-brid	1,434
Sain Dunwyd	205
Sain Siorys a Llansanffraid Elái	241
Sain Nicolas a Thresimwn	742
Sili a Larnog	2,706
Llanddunwyd	325
Gwenfô	1,564
Y Wig	535
Cyfanswm Sylfaen y Dreth Gyngor, Cyngorau Tref a Chymuned	59,105
Y Rhws	3,229
Cyfanswm Sylfaen y Dreth Gyngor	62,334

sef y symiau a gyfrifwyd gan y Cabinet (y Weithrediaeth) yn unol â rheoliad 6 y Rheoliadau, fel y'u diwygiwyd, fel symiau sylfaen y dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'r ardal y mae un neu fwy o eitemau arbennig yn berthnasol iddynt.

(2) BOD y symiau canlynol yn cael eu cyfrifo gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2023/24 yn unol ag Adrannau 32 i 36 Deddf Gyllid Llywodraeth Leol 1992:

- | | |
|--|--------------|
| (a) Cyfansymu'r symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodir yn Adran 32 (2) (a) i (d) a (2A) y Ddeddf (gan gynnwys Praeseptau Cyngor Tref / Cymuned sy'n £3,406,510). | £456,106,214 |
| (b) Cyfansymu'r symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodir yn Adran 32 (3) (a), (aa) a (c), a (3A) y Ddeddf | £158,889,000 |
| (c) Y swm y mae'r cyfanswm yn (2)(a) uchod yn fwy na'r cyfanswm yn (2)(b) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32(4) y Ddeddf fel y gofyniad ar gyfer cyllideb y flwyddyn. | £297,217,214 |
| (ch) Cyfansymu'r symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y cânt eu talu yn ystod y flwyddyn i Gronfa'r Cyngor mewn perthynas ag ardrethi annomestig wedi'u hailddosbarthu, y grant cynnal refeniw, ei gynllun gostyngiad treth gyngor, grantiau ychwanegol neu grantiau arbennig llai Rhyddhad Ardrethi Annomestig yn ôl Disgresiwn penodol | £202,506,977 |
| (d) | £1,519.40 |

Y swm yn (2)(c) uchod llai'r swm yn (2)(d) uchod, wedi'i rannu gan y swm yn (1)(a) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 33(1) y Ddeddf fel swm sylfaenol y dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn.

(dd) Cyfansymu swm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34(1) y Ddeddf. £3,406,510

(e) Y swm yn (2)(e) uchod llai'r canlyniad a geir trwy rannu'r swm yn (2)(f) uchod gan y swm yn (1)(a) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34(2) y Ddeddf, fel swm sylfaenol y dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn ar gyfer aneddiadau yn y rhannau hynny o'r ardal lle nad yw eitemau arbennig yn berthnasol iddynt. £1,464.75

(f)	<u>Rhan o ardal y Cyngor</u>	<u>£</u>
	Y Barri	1,524.95
	Tregolwyn	1,512.52
	Y Bont-faen gyda Llanfleiddan	1,552.72
	Dinas Powys	1,497.82
	Ewenni	1,515.86
	Llancarfan	1,492.73
	Llandochau	1,516.72
	Llandŵ	1,487.43
	Llanfair	1,479.81
	Llan-gan	1,488.97
	Llan-faes	1,518.12
	Llanilltud Fawr	1,526.12
	Llanfihangel	1,494.50
	Penarth	1,549.73
	Pendeulwyn	1,487.48
	Pen-llin	1,477.47
	Llanbedr-y-fro	1,506.34
	Sain Tathan	1,508.85
	Saint-y-brid	1,480.75
	Sain Dunwyd	1,489.20
	Sain Siorys a Llansanffraid Elái	1,490.57
	Sain Nicolas a Thresimwn	1,539.02
	Sili a Larnog	1,501.48
	Llanddunwyd	1,486.29
	Gwenfô	1,489.64
	Y Wig	1,481.57

y symiau a geir trwy ychwanegu at y swm yn (2)(g) uchod y symiau o'r eitem neu'r eitemau arbennig sy'n berthnasol i anheddau yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor a nodir uchod, wedi'u rhannu ym mhob achos gan y swm yn (1)(b) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34(3) y Ddeddf, fel symiau sylfaenol y dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y

rhannau hynny o'r ardal y mae un neu fwy o eitemau arbennig yn berthnasol iddynt.

(i) Rhan o ardal y Cyngor

£	Bandiau Priso								
	A	B	C	D	E	F	G	H	I
Y Barri	1,016.63	1,186.07	1,355.51	1,524.95	1,863.83	2,202.71	2,541.58	3,049.90	3,558.22
Tregolwyn	1,008.35	1,176.40	1,344.46	1,512.52	1,848.64	2,184.75	2,520.87	3,025.04	3,529.21
Y Bont-faen gyda Llanfleiddan	1,035.15	1,207.67	1,380.20	1,552.72	1,897.77	2,242.82	2,587.87	3,105.44	3,623.01
Dinas Powys	998.55	1,164.97	1,331.40	1,497.82	1,830.67	2,163.52	2,496.37	2,995.64	3,494.91
Ewenni	1,010.57	1,179.00	1,347.43	1,515.86	1,852.72	2,189.58	2,526.43	3,031.72	3,537.01
Llancarfan	995.15	1,161.01	1,326.87	1,492.73	1,824.45	2,156.17	2,487.88	2,985.46	3,483.04
Llandochoau	1,011.15	1,179.67	1,348.20	1,516.72	1,853.77	2,190.82	2,527.87	3,033.44	3,539.01
Llandŵ	991.62	1,156.89	1,322.16	1,487.43	1,817.97	2,148.51	2,479.05	2,974.86	3,470.67
Llanfair	986.54	1,150.96	1,315.39	1,479.81	1,808.66	2,137.50	2,466.35	2,959.62	3,452.89
Llan-gan	992.65	1,158.09	1,323.53	1,488.97	1,819.85	2,150.73	2,481.62	2,977.94	3,474.26
Llan-faes	1,012.08	1,180.76	1,349.44	1,518.12	1,855.48	2,192.84	2,530.20	3,036.24	3,542.28
Llanilltud Fawr	1,017.41	1,186.98	1,356.55	1,526.12	1,865.26	2,204.40	2,543.53	3,052.24	3,560.95
Llanfihangel	996.33	1,162.39	1,328.44	1,494.50	1,826.61	2,158.72	2,490.83	2,989.00	3,487.17
Penarth	1,033.15	1,205.35	1,377.54	1,549.73	1,894.11	2,238.50	2,582.88	3,099.46	3,616.04
Pendeulwyn	991.65	1,156.93	1,322.20	1,487.48	1,818.03	2,148.58	2,479.13	2,974.96	3,470.79
Pen-llin	984.98	1,149.14	1,313.31	1,477.47	1,805.80	2,134.12	2,462.45	2,954.94	3,447.43
Llanbedr-y-fro	1,004.23	1,171.60	1,338.97	1,506.34	1,841.08	2,175.82	2,510.57	3,012.68	3,514.79
Y Rhws	976.50	1,139.25	1,302.00	1,464.75	1,790.25	2,115.75	2,441.25	2,929.50	3,417.75
Sain Tathan	1,005.90	1,173.55	1,341.20	1,508.85	1,844.15	2,179.45	2,514.75	3,017.70	3,520.65
Saint-y-brid	987.17	1,151.69	1,316.22	1,480.75	1,809.81	2,138.86	2,467.92	2,961.50	3,455.08
Sain Dunwyd	992.80	1,158.27	1,323.73	1,489.20	1,820.13	2,151.07	2,482.00	2,978.40	3,474.80
Sain Siorys a Llansanffraid Elái	993.71	1,159.33	1,324.95	1,490.57	1,821.81	2,153.05	2,484.28	2,981.14	3,478.00
Sain Nicolas a Thresimwn	1,026.01	1,197.02	1,368.02	1,539.02	1,881.02	2,223.03	2,565.03	3,078.04	3,591.05
Sili a Larnog	1,000.99	1,167.82	1,334.65	1,501.48	1,835.14	2,168.80	2,502.47	3,002.96	3,503.45
Llanddunwyd	990.86	1,156.00	1,321.15	1,486.29	1,816.58	2,146.86	2,477.15	2,972.58	3,468.01
Gwenfô	993.09	1,158.61	1,324.12	1,489.64	1,820.67	2,151.70	2,482.73	2,979.28	3,475.83
Y Wig	987.71	1,152.33	1,316.95	1,481.57	1,810.81	2,140.05	2,469.28	2,963.14	3,457.00

y symiau a geir trwy luosogi y symiau yn (2)(g) a (2)(h) uchod gan y rhif sydd, yn y gyfran a nodir yn Adran 5 (1/1A) y Ddeddf, yn berthnasol i anheddau a restrir mewn band priso penodol wedi'u rhannu gan y rhif sydd, yn y gyfran hon, yn berthnasol i anheddau a restrir ym mand priso D, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 36 (1) y Ddeddf, fel y symiau i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn mewn perthynas â chategoriâu anheddau a restrir mewn bandiau priso gwahanol.

(3). Nodi bod y Comisiynydd Heddlu a Throseddau dros Dde Cymru, ar gyfer y flwyddyn 2023/24, wedi dweud bod y symiau canlynol mewn praeseptau wedi'u cyhoeddi i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 Deddf Gyllid Llywodraeth Leol 1992, ar gyfer pob un o'r categorïau anheddau a ddangosir isod:-

£	Bandiau Priso								
A	B	C	D	E	F	G	H	I	
216.31	252.37	288.42	324.47	396.57	468.68	540.78	648.94	757.10	

4. Wedi cyfrifo'r cyfanswm ym mhob achos y symiau yn (2)(i) a (3) uchod, bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, yn unol ag Adran 30 (2) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, drwy hyn yn pennu'r symiau canlynol fel symiau'r Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn 2023/24.

Rhan o ardal y Cyngor	Bandiau Prisio									
	£	A	B	C	D	E	F	G	H	I
Y Barri	1,232.94	1,438.44	1,643.93	1,849.42	2,260.40	2,671.39	3,082.36	3,698.84	4,315.32	
Tregolwyn	1,224.66	1,428.77	1,632.88	1,836.99	2,245.21	2,653.43	3,061.65	3,673.98	4,286.31	
Y Bont-faen gyda Llanfleiddan	1,251.46	1,460.04	1,668.62	1,877.19	2,294.34	2,711.50	3,128.65	3,754.38	4,380.11	
Dinas Powys	1,214.86	1,417.34	1,619.82	1,822.29	2,227.24	2,632.20	3,037.15	3,644.58	4,252.01	
Ewenni	1,226.88	1,431.37	1,635.85	1,840.33	2,249.29	2,658.26	3,067.21	3,680.66	4,294.11	
Llancarfan	1,211.46	1,413.38	1,615.29	1,817.20	2,221.02	2,624.85	3,028.66	3,634.40	4,240.14	
Llandochau	1,227.46	1,432.04	1,636.62	1,841.19	2,250.34	2,659.50	3,068.65	3,682.38	4,296.11	
Llandŵ	1,207.93	1,409.26	1,610.58	1,811.90	2,214.54	2,617.19	3,019.83	3,623.80	4,227.77	
Llanfair	1,202.85	1,403.33	1,603.81	1,804.28	2,205.23	2,606.18	3,007.13	3,608.56	4,209.99	
Llan-gan	1,208.96	1,410.46	1,611.95	1,813.44	2,216.42	2,619.41	3,022.40	3,626.88	4,231.36	
Llan-faes	1,228.39	1,433.13	1,637.86	1,842.59	2,252.05	2,661.52	3,070.98	3,685.18	4,299.38	
Llanilltud Fawr	1,233.72	1,439.35	1,644.97	1,850.59	2,261.83	2,673.08	3,084.31	3,701.18	4,318.05	
Llanfihangel	1,212.64	1,414.76	1,616.86	1,818.97	2,223.18	2,627.40	3,031.61	3,637.94	4,244.27	
Penarth	1,249.46	1,457.72	1,665.96	1,874.20	2,290.68	2,707.18	3,123.66	3,748.40	4,373.14	
Pendeulwyn	1,207.96	1,409.30	1,610.62	1,811.95	2,214.60	2,617.26	3,019.91	3,623.90	4,227.89	
Pen-llin	1,201.29	1,401.51	1,601.73	1,801.94	2,202.37	2,602.80	3,003.23	3,603.88	4,204.53	
Llanbedr-y-fro	1,220.54	1,423.97	1,627.39	1,830.81	2,237.65	2,644.50	3,051.35	3,661.62	4,271.89	
Y Rhws	1,192.81	1,391.62	1,590.42	1,789.22	2,186.82	2,584.43	2,982.03	3,578.44	4,174.85	
Sain Tathan	1,222.21	1,425.92	1,629.62	1,833.32	2,240.72	2,648.13	3,055.53	3,666.64	4,277.75	
Saint-y-brid	1,203.48	1,404.06	1,604.64	1,805.22	2,206.38	2,607.54	3,008.70	3,610.44	4,212.18	
Sain Dunwyd	1,209.11	1,410.64	1,612.15	1,813.67	2,216.70	2,619.75	3,022.78	3,627.34	4,231.90	
Sain Siorys a Llansanffraid Elái	1,210.02	1,411.70	1,613.37	1,815.04	2,218.38	2,621.73	3,025.06	3,630.08	4,235.10	
Sain Nicolas a Thresimwn	1,242.32	1,449.39	1,656.44	1,863.49	2,277.59	2,691.71	3,105.81	3,726.98	4,348.15	
Sili a Larnog	1,217.30	1,420.19	1,623.07	1,825.95	2,231.71	2,637.48	3,043.25	3,651.90	4,260.55	
Llanddunwyd	1,207.17	1,408.37	1,609.57	1,810.76	2,213.15	2,615.54	3,017.93	3,621.52	4,225.11	
Gwenfô	1,209.40	1,410.98	1,612.54	1,814.11	2,217.24	2,620.38	3,023.51	3,628.22	4,232.93	
Y Wig	1,204.02	1,404.70	1,605.37	1,806.04	2,207.38	2,608.73	3,010.06	3,612.08	4,214.10	

- (5) BOD gostyngiad am dalu'r Dreth Gyngor yn brydlon ddim yn cael ei roi.
- (6) BOD y Sêl Gyffredin yn cael ei hatodi i'r Dreth Gyngor ddywededig.
- (7) BOD hysbysiadau o greu'r Trethi Cyngor dywededig wedi'u llofnodi gan y Prif Weithredwr yn cael eu hysbysebu yn y wasg leol dan Adran 38(2) Deddf Gyllid Llywodraeth Leol 1992.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1-7) Er mwyn pennu'r Dreth Gyngor ar gyfer 2023/24.

(D.S. Cafodd Adroddiad Atodol yn cynnwys Penderfyniad Treth Gyngor wedi'i ddiweddarau ei ddsbarthu i'r holl Gynghorwyr o flaen llaw a chyn y cyfarfod.)

783 ANHEDDAU GWAG Y DRETH GYNGOR: 2023/24 (CYF) –

PENDERFYNWYD – BOD y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys (Cofnod Rhif C158, 1 Rhagfyr 2022 (fel y nodir yn Adran 15.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor) yn cael ei nodi.

Rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

784 SYLFAEN Y DRETH GYNGOR: 2023/24 (CYF) –

PENDERFYNWYD – BOD y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys (Cofnod Rhif C168, 1t Rhagfyr 2022 (fel y nodir yn Adran 15.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor) yn cael ei nodi.

Rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

785 CYNIGION CYLLIDEB TERFYNOL Y CYFRIF REFENIW TAI (CRT) 2023/24 A PHENNU RHENTI 2023/2024 (CYF) –

PENDERFYNWYD – BOD y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys (Cofnod Rhif C176, 5 Ionawr, 2023 (fel y nodir yn Adran 15.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor) yn cael ei nodi.

Rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

786 CYNNIG I DROSGWLWYDDO CANOLFAN ADNODDAU ARBENIGOL YN YSGOL GYNRADD LLANDOCHAU I YSGOL Y DDRAIG (CYF) –

PENDERFYNWYD – BOD y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys (Cofnod Rhif C177, 5 Ionawr, 2023 (fel y nodir yn Adran 15.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor) yn cael ei nodi.

Rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

787 CYLLIDEB 2023/24 AR GYFER YMGYNGHORI A DIWEDDARIAD PELLACH O'R CATC (CYF) –

PENDERFYNWYD – BOD y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys (Cofnod Rhif C189, 19 Ionawr, 2023 (fel y nodir yn Adran 15.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor) yn cael ei nodi.

Rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

788 PECYN CYMORTH CYNHWYSIANT TRAWSRYWIOL DRAFFT A DOGFEN GANLLAW AR GYFER YSGOLION A LLEOLIADAU ERAILL (CYF) –

PENDERFYNWYD – BOD y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys (Cofnod Rhif C193, 19 Ionawr, 2023 (fel y nodir yn Adran 15.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor) yn cael ei nodi.

Rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

789 YMATEB Y CYNGOR I YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU:
PAPUR GWYN GWEINYDDU ETHOLIADOL A DIWYGIO (CYF) –

PENDERFYNWYD – BOD y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys (Cofnod Rhif C200, 19 Ionawr, 2023 (fel y nodir yn Adran 15.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor) yn cael ei nodi.

Rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

790 CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL DRAFFT CYNGOR BRO
MORGANNWG 2023-24 (CYF) –

PENDERFYNWYD – BOD y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys (Cofnod Rhif C226, 16 Chwefror, 2023 (fel y nodir yn Adran 15.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor) yn cael ei nodi.

Rheswm dros y penderfyniad

Mae adrodd ar y defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

791 CWESTIYNAU SY'N UNOL AG ADRAN 4.18 O GYFANSODDIAD Y CYNGOR –

Cyflwynwyd yr ymatebion a ganlyn i gwestiynau gan yr Aelodau a oedd wedi'u nodi ar yr agenda.

(i) **Cwestiwn gan y Cynghorydd W.A. Hennessy**

A yw'r Cyngor wedi cydnabod bod datblygu Model Farm yn groes i ymrwymiad y Fro i weithredu'n gysylltiedig â'r Argyfwng Natur, fel bod angen ailasesu'r dynodiad drwy edrych eto ar y CDLI?

Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Ymgysylltiad Cymunedol, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddio

Cafodd y cais cynllunio cyfredol ar gyfer Model Farm ei ystyried gan y pwyllgor Cynllunio ar 1 Mawrth pan gynhaliwyd asesiad llawn o'r datblygiad yn erbyn polisïau lleol a chenedlaethol, gan gynnwys yr holl ystyriaethau perthnasol eraill.

Nid yw Cynllun Datblygu Lleol cyfredol y Cyngor yn dod i ben hyd 2026, ac mae'n parhau i fod yn ystyriaeth berthnasol allweddol wrth benderfynu ynghylch y cais hwn.

Roedd y cais wedi'i wneud yn amodol ar Gyfarwyddyd Dal yn Ôl gan Lywodraeth Cymru (LIC), sy'n cyfyngu ar y gallu i roi caniatâd nes i LIC benderfynu a ddylid cyfeirio'r cais i'w benderfynu gan Weinidogion Cymru. Mae LIC wedi nodi ei bod yn

disgwyl am adroddiad wedi'i ddiweddarau ac argymhelliad gan y Cyngor cyn gwneud y penderfyniad hwnnw.

(ii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry**

Ym mis Mai y llynedd, enillodd Llafur Cymru a Llanilltud Fawr yn Gyntaf 38% o'r pleidleisiau yn yr etholiad diwethaf, ac uchafswm bach o seddau. Mae'r uchafswm bach hwn wedi'i drosi'n 100% o'r seddau wrth fwrdd y Cabinet i aelodau'r ddwy blaid wleidyddol - gan gau doniau ac arbenigedd allan o rolau pwysig ac ymwreiddio gwleidyddiaeth plaid mewn penderfyniadau.

Mae cynrychiolaeth gyfrannol yn creu system lywodraethu fwy cynhwysol, ac yn annog Aelodau Etholedig i gydweithredu, cyfaddawdu a chydweithio er mwyn gwella ein cymunedau.

Ar lefel y Cabinet, a ddylem fod yn ystyried systemau Llywodraethu mwy cynhwysol, teg a chynrychioliadol ar gyfer Cyngor Bro Morgannwg?

Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau

Y ffaith syml yw nad yw'r system etholiadol gyfredol yn seiliedig ar gynrychiolaeth gyfrannol, a mynegodd etholwyr Bro Morgannwg eu barn yn Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022, gan ddychwelyd 25 o seddau Llafur, a derbyniodd Aelodau Annibynnol Llanilltud Fawr yn Gyntaf 4 sedd unwaith eto i gynrychioli Llanilltud Fawr. Onid canlyniad Democrataidd yw hyn? Cawsoch chi'ch hun, Cynghorydd Parry, eich ethol drwy'r un trefniadau.

Fel y Grŵp Gwleidyddol mwyaf yn dilyn yr Etholiadau hynny, cychwynnodd y Grŵp Llafur drafodaethau ag Aelodau Annibynnol Llanilltud Fawr yn Gyntaf a'r Aelod Annibynnol, y Cynghorydd Morgan, a chytuno i ymrwmo i glymblaid er mwyn ffurfio Gweinyddiaeth ac i arwain y Cyngor, fel yr oedd ganddo berffaith hawl i'w wneud.

Cyflwynwyd trefniadau'r Weithrediaeth (neu'r Cabinet) yn sgil Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac, fel y mae'r Cynghorydd Perry yn ei gofio, yn y Cyfarfod Blynyddol y llynedd yn dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol hynny ym mis Mai 2022, roedd yr adroddiad perthnasol yn esbonio'r gofynion yng Nghyfansoddiad y Cyngor i benodi Arweinydd a Dirprwy Arweinydd, ac i sefydlu Cabinet.

Mae'r Cabinet cyfredol, fel y Gweinyddiaethau blaenorol o dan arweiniad Llafur, gyda'r mwyaf amrywiol a chynhwysol mewn llywodraeth leol yng Nghymru. Rydych chi'n cyfeirio at gydweithredu a chydweithio yn eich cwestiwn, ond heb gydnabod bod y glymblaid gyfredol (a blaenorol) o dan arweiniad Llafur wedi bod yn barod iawn i gydweithredu mewn trafodaethau, a bydd yn barod iawn i barhau felly, a bydd yr aelodau'n parhau i gydweithio mewn partneriaeth ag ystod o sefydliadau ac asiantaethau eraill sy'n darparu gwasanaethau Cyngor i'w breswylwyr a'i gymunedau.

(iii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry**

Ymddengys nad oes unrhyw beth wedi digwydd yn sgil y fenter 'Ail-lunio Gwasanaethau', gan adael cyfranogwyr o Gynghorau Tref a Chymuned yn teimlo eu bod wedi gwastraffu amser, ymdrech ac arian. Mae Cyngor y Fro yn parhau i fod yn gyfrifol am drefniadau torri gwair, Ardaloedd Chwarae Lleol ac Ardaloedd Chwarae gyda Chyfarpar ac ati

A fydd 'Ail-lunio Gwasanaethau'n yn cael ei hailgychwyn neu a gaiff y fenter ei gadael yn y gwter?

Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau

I ddechrau, nid yw ein menter i 'Ail-lunio' ein dull o drawsnewid erioed wedi bod yn y 'gwter', fel y dywedoch. O awgrymu hyn, rydych yn diystyru'r gwaith trawsnewid sylweddol a wnaed o fewn y Cyngor i'r dull o ddarparu gwasanaethau.

Gwn y byddwch yn cyfarfod â'r Phrif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol yn fuan yn eich ardal Cyngor Cymuned i drafod cyfleoedd posibl i gydweithio'n agosach. Mae hyn yn dangos awydd parhaus y Cyngor i weithio gyda'n cymunedau, ein sefydliadau a'n Cynghorau Tref a Chymuned i ganfod ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau.

Byddwch yn cofio bod Ail-lunio Gwasanaethau yn rhaglen a gyflwynwyd ar adeg o gyni ariannol, ac yng nghamau cychwynnol y rhaglen llwyddwyd i arbed miliynau o bunnoedd o arian, gan warchod gwasanaethau allweddol ar yr un pryd. Datblygodd y rhaglen yn ystod y pandemig i roi mwy o bwyslais ar ffyrdd newydd o weithio, yn enwedig i gefnogi pobl mewn tloedi bwyd, i staff fabwysiadu dulliau newydd o weithio a chreu cysylltiadau â gwaith partneriaeth allweddol.

Fel rydym wedi trafod heno, bydd y gyllideb ar gyfer y blynyddoedd nesaf yn eithriadol o dynn, a bydd angen rhaglen arbedion wedi'i rheoli'n llym. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi gweld yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer y flwyddyn i ddod fod parodrwydd a bwriad parhaus i fod yn uchelgeisiol ynghylch cyflawni er budd preswylwyr y Fro, a byddwn yn parhau i wneud hynny mewn ffyrdd creadigol, a gweithio mewn partneriaeth ag ystod o sefydliadau. Edrychaf ymlaen i glywed gan gydweithwyr ynghylch y cynnydd a geir yn y cyfarfod, a hoffwn eto estyn gwahoddiad i'r holl Gynghorau Tref a Chymuned gysylltu â'r Cyngor i rannu unrhyw syniadau.

(iv) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry**

A ddylai Bro Morgannwg ddilyn Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a llofnodi Siarter Creu Lleoedd Cymru?

Datblygwyd Siarter Creu Lleoedd Cymru gan Lywodraeth Cymru a Chomisiwn Dylunio Cymru mewn cydweithrediad â Phartneriaeth Creu Lleoedd Cymru - grŵp amlddisgyblaeth yn cynrychioli proffesiynau a sefydliadau sy'n gweithio o fewn yr amgylchedd adeiledig a naturiol.

Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Ymgysylltiad Cymunedol, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddio

Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu ei agenda Creu Lleoedd a chymerodd ran yng ngwaith Comisiwn Dylunio Cymru i sefydlu'r Siarter. Cafodd datblygiad y Glannau ei gynnwys yng Nghanllaw Creu Lleoedd Comisiwn Dylunio Cymru fel enghraifft dda o ddatblygiad defnydd cymysg ac roedd y Cyngor yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru sydd wedi cysylltu ei grant Trawsnewid Trefi a'i raglen cyllido benthyciadau â datblygiad cynlluniau Creu Lleoedd.

Mae gwaith ar Gynllun Creu Lleoedd y Barri eisoes wedi dechrau, a bwriedir cynnal digwyddiadau ymgysylltu yn y gwanwyn a fydd yn cyfrannu at ddatblygiad y cynllun. Bydd yr ymgysylltu hwn yn cynnwys rhanddeiliaid, gan gynnwys y gymuned a busnesau lleol.

(v) Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry

Mae'n destun siom clywed bod Cyngor y Fro yn parhau i ddefnyddio cynnyrch adeiladu wedi'i wneud o uPVC fel dewis cyntaf yn hytrach nag opsiynau eraill llai niweidiol i'r amgylchedd (ee, cynnyrch wedi'i wneud o goed/alwminiwm).

Mae angen llawer iawn o ynni a defnyddio nwy clorin i gynhyrchu uPVC. Mae'r deunydd yn pydru'n araf iawn ac fel cynnyrch gwastraff mae ynddo sylweddau sy'n beryglus iawn i'r amgylchedd, fel cadmiwm a sefydlogrwyddion plwm. Mae ailgylchu PVC yn weithdrefn gymhleth a drud oherwydd presenoldeb y polymerau a'r deunyddiau atgyfnerthu cysylltiedig.

Mae'r Cyngor yn rhoi'r argraff ei fod wedi ymrwymo i'r argyfwng hinsawdd, yr amgylchedd a'r argyfwng natur. Oni ddylai felly osod esiampl drwy gaffael y deunyddiau adeiladu mwyaf cynaliadwy, neu wrthbwysu cost â'r effaith ar yr amgylchedd mewn modd tryloyw?

Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu

Mae timau ar draws y Cyngor yn ymchwilio i opsiynau mwy ecogyfeillgar ar gyfer ffenestri, ac ar gyfer prosiectau adeiladu yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae defnyddio'r opsiynau hynny yn creu goblygiadau o ran costau, o safbwynt cyfalaf (gosod) a refeniw (cynnal a chadw yn y dyfodol). Mae UPVC yn llawer mwy cost-ffeithiol dros oes y cynnyrch yn nhermau costau cynnal a chadw yn y dyfodol, a dyma'r dewis mwyaf cost-ffeithiol hefyd o safbwynt cyfalaf, yn enwedig pan fo adnoddau ar gyfer prosiectau o'r fath yn brin. Pan fydd modd cyfiawnhau defnyddio deunydd gwahanol am resymau'n ymwneud â safle penodol (er enghraifft, lle ceir goblygiadau Treftadaeth) ystyrir defnyddio deunyddiau eraill fel bo'r angen. Fodd bynnag, mae'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy wedi darparu tair ysgol gyfun, dwy ysgol gynradd (y naill yn Gweithredu ar sail Carbon Sero Net a'r llall yn Drydan Llwyd) ac uned feithrin (wedi'i darparu drwy Ddull Adeiladu Modern) nad oeddent yn cynnwys unrhyw ffenestri/ddrysau uPVC. Prif gyflawniad y rhaglen yw darparu adeiladau cynaliadwy, isel eu heffaith ar yr amgylchedd a thermol-ffeithlon. Cyflawnir hyn drwy ddewis y cynnyrch a'r dulliau gwaith cywir ar gyfer adeiladu.

Mae'r Cyngor yn ceisio datblygu ei arferion o ran yr effaith ar yr amgylchedd drwy gaffael y deunyddiau adeiladu mwyaf cynaliadwy sydd ar gael, ond gan gydbwysu hynny â chyfyngiadau'r gyllideb sydd ar gael. Byddai sylw'n cael ei roi i'r mater hwn hefyd ar Fwrdd Prosiect Sero y Cyngor, er trafodaeth ac ystyriaeth bellach.

(vi) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry**

Gwelais un o denantiaid Cyngor y Fro ar y cyfryngau cymdeithasol yn tynnu sylw at waith cynnal a chadw a oedd wedi ôl-gronni yn ei gartref. Roedd hyn yn destun rhwystredigaeth ac embaras iddo. Beth allwch ei ddweud wrthym ynghylch y gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni ar anheddau rhent cymdeithasol, ac erbyn pryd y gallai'r ôl-groniad hwn gael ei glirio?

Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu

Mae ein hamseroedd ymateb cyfredol ar gyfer gwaith trwsio yn cael eu bodloni gan amlaf, ond mewn rhai achosion bydd gwaith trwsio nad oes brys i'w gwblhau yn cael ei drefnu mewn swp i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael. Dyma'r amseroedd ymateb er gwybodaeth:

- Gwaith Trwsio Brys - 24 Awr
- Gwaith Trwsio Brys - 5 Diwrnod Gwaith
- Gwaith Trwsio Arferol - 37 Diwrnod Gwaith
- Gwaith Trwsio Swp - 6 Mis

Mae'r gwasanaeth ar hyn o bryd yn gweithio'n unol â'r amseroedd ymateb a bennwyd.

(vii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry**

Pa waith sy'n digwydd i Ymgysylltu â Thenantiaid er mwyn sicrhau bod tenantiaid Cyngor Bro Morgannwg yn byw mewn adeiladau sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda?

Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Dai'r Sector Cyhoeddus ac Ymgysylltu â Thenantiaid

Mae gan y Cyngor Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid a Lesddeiliaid ac ynddi amcanion a chamau allweddol sy'n anelu i ysgogi ymgysylltiad pellach rhwng tenantiaid a'r gwasanaethau tai ac adeiladu. Gall tenantiaid gymryd rhan mewn sawl ffordd, gan gynnwys drwy Gymdeithasau Tenantiaid a Phreswylwyr, y Fforwm Dylunio o Ansawdd (grŵp o denantiaid sy'n cael eu holi am welliannau cyfalaf) a'r Gweithgor (sy'n cyfarfod â'n Huwch Swyddogion ac yn trafod ystod o wasanaethau'n gysylltiedig â thenantiaeth). Yn ogystal â'r grwpiau hyn, mae'r Aseswyr Ansawdd Gwasanaeth yn grŵp newydd o denantiaid sy'n cynnal adolygiadau ac ymarferion siopwyr cudd. Yn ogystal â hynny, mae grŵp bach o denantiaid wedi'u cynrychioli ar y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel.

I gefnogi ein dyhead i sicrhau bod ein tenantiaid yn byw mewn cartrefi sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda, caiff Swyddogion Cyswllt Tenantiaid eu cyflogi yn nhîm y Gwasanaethau Adeiladu, ac maen nhw'n chwarae rhan allweddol er mwyn cyflawni

gwelliannau cyfalaf. Mae eu rôl yn cynnwys ymgynghori â thenantiaid cyn, yn ystod ac ar ôl gwaith, gan weithredu fel sianel rhwng y tenant a'r contractwyr, i sicrhau bod gwaith yn cael ei gwblhau hyd at safon uchel, ar amser a chan darfu cyn lleied ag sy'n bosibl ar y tenant.

(viii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry**

Mae'r preswylwyr yn cwyno bod arwynebeddau ffyrdd gwledig wedi dirywio'n glytwaith o batsys atgyweirio blêr, ac mai ychydig iawn o'r arwynebedd gwreiddiol sydd ar ôl. Mewn manau eraill mae'r wyneb wedi chwalu at y craidd caled ond heb fodloni'r diffiniad o dwll yn y ffordd, sydd o leiaf 40mm o ddyfnder **AC** yn 300mm o hyd. Mae'n amlwg bod preswylwyr o'r farn fod ein diffiniad o dwll yn y ffordd yn anghywir.

A wnewch chi, yr Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am Gynnal Priffyrdd, ymchwilio i'r posibilrwydd o ailddiffinio tyllau yn y ffordd a newid i ymagwedd sy'n atal tyllau drwy ailwynebu hydroedd o ffordd, yn hytrach nag ymateb i dyllau newydd, a chyflwyno opsiynau a chostau gerbron cyfarfod o'r Cyngor Llawn erbyn yr hydref?

Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu

Mae gennym ddiffiniad clir o dwll yn y ffordd, rydym yn cynnal adolygiadau rheolaidd o'n system ffyrdd ac mae gennym bolisi arolygu ac ymyrryd. Gan hynny, does dim angen i'r Cyngor lunio ailddiffiniad.

Atodol

Holodd y Cynghorydd Perry a ddylai'r Cyngor ystyried ailwynebu ffyrdd yn hytrach na thrwsio tyllau.

Dywedodd yr Aelod Cabinet nad oedd gan y Cyngor adnoddau di-ben-draw ar gyfer ei raglen ailwynebu, a phe bai'r Aelod am gael tynnu sylw at unrhyw ffyrdd penodol, gofynnodd i'r Cynghorydd Perry gyfeirio'r rheiny i sylw swyddogion a fyddai'n eu hasesu'n unol â'r polisi cytunedig.

(ix) **Cwestiwn gan y Cynghorydd I.A.N. Perry**

Yn dilyn ymlaen o'm cwestiwn atodol yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 5 Rhagfyr, 2022.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor Cyswllt Cymunedol nad oedd Sŵn Ffyrdd a iechyd a llesiant cysylltiedig ymhlith y meini prawf wrth ddewis priffyrdd i'w hailwynebu, ac yng nghyfarfod Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio ar 12 Gorffennaf, 2022, wrth ystyried y Cynllun Ailwynebu diweddaraf, cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth nad oedd Sŵn Ffyrdd yn fater i'w ystyried wrth ddewis ffyrdd i'w hailwynebu.

A allwn nawr gytuno nad yw Sŵn Ffyrdd ymhlith y meini prawf ar gyfer penderfynu pa ffyrdd a gaiff eu hailwynebu. Ymhellach at hynny, ac ystyried yr effaith negyddol ar gwsgraw a llesiant pobl sy'n byw wrth ymyl ffyrdd sy'n creu lefelau gormodol o sŵn, a

allwn gytuno bod angen ymyrraeth frys gan Gyngor Bro Morgannwg ar gyfer y ffyrdd a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Sŵn a Seinwedd, yr oedd angen **Gweithredu ar Frys** yn eu cylch yn 2012, er mwyn lleihau sŵn ffyrdd, a bod yn rhaid cynnwys sŵn ffyrdd ymhlith y meini prawf allweddol/â blaenoriaeth ar gyfer gwaith cynnal a thrwsio priffyrdd yn y dyfodol?

Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu

Gwn eich bod eisoes wedi cael gwybod nad oes unrhyw ofyniad cyfreithiol clir yng Nghynllun Gweithredu Sŵn a Seinwedd Llywodraeth Cymru (2018-2023) i Awdurdodau Lleol wneud gwaith ailwynebu i leihau sŵn ffordd yn unig, nac i roi blaenoriaeth i hynny.

Serch hynny, derbyniaf fod sŵn yn ffactor sy'n effeithio ar lesiant, felly braf yw cadarnhau, ar gyfer unrhyw waith ailwynebu a nodir yng nghynllun Cynnal Priffyrdd 3 blynedd y Cyngor, y nodir bod angen defnyddio deunyddiau priodol er mwyn lleihau effaith bosibl sŵn ffyrdd ar gymunedau lleol hyd yr eithaf, ac i'n cynorthwyo i barhau i gyflawni dyletswydd y Cyngor o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Atodol

Gofynnodd y Cyngorydd Perry a allai'r Aelod Cabinet ystyried cynyddu'r gyllideb ailwynebu yn y blynyddoedd nesaf.

Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai hynny'n fater i'w ystyried gan y Cabinet pe bai adnoddau ar gael.

(x) Cwestiwn gan y Cyngorydd I.A.N. Perry

Hysbyswyd y Pwyllgor Cyswllt Cymunedol, yn ei gyfarfod ar 25 Ionawr 2022 nad oedd digon o Fannau Agored Cyhoeddus wedi'u darparu yn y Fro wledig, a mynegodd cyfranogwyr yn y cyfarfod eu pryderon ynghylch y prinder hwn.

Mae Ward 10 milltir o hyd Sain Niclas a Llancarfan yn dibynnu i raddau helaeth ar un Comin pori fel darpariaeth - nad yw o fewn cyrraedd rhwydd i lawer o drigolion y Ward. Drwy benderfyniadau amhoblogaidd, mae tair ardal o dir agored cyhoeddus o fewn y ward hon naill ai wedi'u colli'n llwyr neu eu lleihau yn barod yn y degawd hwn. Mae darparu mannau agored cyhoeddus yn cyfrannu at Nodau Llesiant Llywodraeth Cymru.

Sut mae Cyngor Bro Morgannwg yn mynd i fynd i'r afael â'r broblem hon, sef y danddarpariaeth o fannau agored cyhoeddus ar draws y Fro wledig.

Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Ymgysylltiad Cymunedol, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddio

Cynhaliwyd asesiad o ddarpariaeth mannau agored yn rhan o'r gwaith cefndir i baratoi'r CDLI cyfredol a'r CDLI Newydd sydd ar ddod. Bydd y Cyngor yn cynnal asesiad pellach o lefelau'r mannau agored yn rhan o asesiad Seilwaith Gwyrdd (SG)

y CDLI Newydd a bydd hyn yn rhan o bapur cefndir arfarnu'r SG ar gyfer y Cynllun Newydd.

Ochr yn ochr â hyn, bydd dyraniadau tai, polisïau rheoli datblygu a Chanllawiau Cynllunio Atodol y Cyngor ar Rwymedigaethau Cynllunio yn gosod safonau cadarn ar gyfer lefelau'r manau agored sydd i'w darparu yn rhan o ddatblygiadau newydd.

(xi) **Cwestiwn gan y Cyngorydd I.A.N. Perry**

Bydd ymwelwyr â safle Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Sain Niclas wedi sylwi y gall y gilfan gyfredol o flaen yr ysgol (sydd eisoes wedi'i dynodi'n droedffordd ar gyfer agoriad yr adeilad newydd) gynnig ardal ddigonol o droedffordd i rieni aros y tu allan am eu plant bob prynhawn, a byddai cadw'r berth sefydledig sy'n blaenu'r ffordd ar hyd gweddill y ffryntiad yn cadw cymeriad gwledig Lôn yr Ysgol a'r Ardal Gadwraeth.

Mae hi hefyd yn siom y bydd y ddwy goeden aeddfed amlwg o flaen Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Sain Niclas, yn yr Ardal Gadwraeth, yn cael eu tynnu ymaith am eu bod yn colli eu dail bob hydref.

Efallai y gellid rhoi ystyriaeth ychwanegol i'r posibilrwydd o gadw'r perthi a'r coed amlwg presennol o flaen yr ysgol?

Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Ymgysylltiad Cymunedol, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddio

Yn groes i honiad y Cyngorydd Perry, cafodd y cais cynllunio gwreiddiol am ysgol newydd ei gyflwyno ym mis Gorffennaf 2020. Gwrthodwyd y cais hwnnw yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ym mis Ionawr 2021. Yn dilyn y penderfyniad hwnnw, treuliyd cryn amser yn ymgysylltu ag ymgynghoreion, gan gynnwys swyddogion Priffyrdd y Cyngor, i ddylunio'r hyn a ystyriwyd yn gynllun a fyddai'n ymdrin â'r rheswm dros wrthod. Ni chafodd y cais dilynol ei gyflwyno hyd fis Ionawr 2022, a daeth y Pwyllgor Cynllunio i benderfyniad yn ei gylch ym mis Ebrill 2022. Credaf fod hyn yn dangos y gwaith a wnaed a'r amser a dreuliyd yn dylunio cynllun a oedd yn goresgyn, hyd y bo modd, y pryderon lleol a phryderon ymgynghoreion, gan fodloni'r anghenion addysgol ar yr un pryd.

I adlewyrchu rhai o'r pryderon a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad, yn benodol yn gysylltiedig â'r ffaith bod rhieni'n parcio yn y pentref o hyd, ehangwyd nifer y manau parcio a ddyrannwyd ar gyfer adeilad o'r maint/math hwn. Nid yw man gollwng plant fel arfer wedi'i gynnwys mewn rhaglenni adeiladu fel hyn, ond cafodd ei gynnwys y tro hwn i liniaru effaith mewn ymateb i bryderon yn y gymuned. Hefyd, mae llinell y berth wedi'i chynnal, a glaswellt/planhigion newydd wedi'u plannu, ynghyd â choed newydd o fewn yr ardal barcio. Cafodd y coed newydd hyn eu cynnwys a'u hystyried yn rhan o'r cais cynllunio i adlewyrchu'r ffaith bod y safle oddi mewn i ffiniau'r ardal gadwraeth. Mae'r maes parcio ei hun yn athraidd ac wedi'i ddylunio i gyfrannu at y datrysiad draenio sy'n cydymffurfio â SAB ar gyfer y safle.

(xii) Cwestiwn gan y Cyngorydd I.A.N. Perry

Ymddengys y gallai datganiad gwleidyddol fod wedi cael ei gyhoeddi yn lle'r ateb i'm cwestiwn yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor Llawn ar y Grŵn yn Nhresimwn. Ym mis Rhagfyr dywedais:

Roedd hi'n destun syndod darllen yn yr Adroddiad Terfynol ar gyfer 8 anedd i lenwi rhan helaeth o'r man glas:

Nad yw 'gwneud dim' yn arbennig o ddymunol. Dengys tystiolaeth nad oes angen y tir fel man agored cyhoeddus, a phe bai'n cael ei adael heb ei ddatblygu gallai droi'n ddiolwg dros amser, yn enwedig yr ardal lle roedd y garejys gynt. Ar ben hynny, ni fyddai tir gwag yn cael yr un effaith gadarnhaol o safbwynt cymdeithasol ac economaidd â'r cynnig i ddatblygu.

Mae'r datganiad hwn yn awgrymu bod Cyngor Bro Morgannwg o'r farn na allai'r Cyngor Cymuned gynnal a chadw'r ardal hon o Fan Agored Cyhoeddus.

Gofynnaf felly eto, a yw'r geiriad yn yr Adroddiad Terfynol ar gyfer datblygu'r Man Agored Cyhoeddus y ceir galw mawr amdano yn Nhresimwn sy'n awgrymu na fyddai'r Cyngor Cymuned sy'n berchen ar y Grŵn yn gallu cynnal (a gwella) Grŵn y Pentref fel amwynder gweledol a chyfleuster chwarae a chymdeithasol yn peri bod angen i Gyngor y Fro ymddiheuro i Gyngor Cymuned Sain Nicolas a Thresimwn?

Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Ymgysylltiad Cymunedol, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddio

Cyfeiriad yr ateb a roddais iddo yng nghyfarfod y Cyngor ar 5 Rhagfyr, 2002 i sylw'r Cyngorydd. Fel y mae'r Cyngorydd yn gwybod yn iawn, methodd yr honiad mai grin pentref oedd y tir dan sylw ar ôl yr ymchwiliad cyhoeddus perthnasol, ac nid oedd hynny felly'n berthnasol wrth ystyried y cais cynllunio hwn.

Nid oedd adroddiad y Pwyllgor Cynllunio a oedd yn ymdrin â darparu Tai Cyngor y mae angen mawr amdanynt ar y safle hwn yn awgrymu na fyddai'r Cyngor Cymuned yn gallu cynnal y tir, ond yn hytrach roedd yn ystyried yr effeithiau posibl yn sgil peidio gwneud dim â'r tir o'i adael heb ei ddatblygu.

(xiii) Cwestiwn gan y Cyngorydd A.M. Ernest

A wnaiff yr Arweinydd esbonio pam, ar ddau achlysur diwethaf o leiaf, bod ymweliadau wedi'u cynnal gan yr Arweinydd a Gweinidog o Lywodraeth Cymru â Ward Plymouth ym Mhenarth, yr wyf i â'm cydweithiwr anrhydeddus yn eu cynrychioli, er mwyn hyrwyddo grantiau ar gyfer adeiladau ac ardaloedd yn ein Ward, a buddsoddiad ynddynt, heb i Aelodau'r Ward dan sylw gael gwybod am hynny, heb sôn am gael gwahoddiad i ymuno â'r cynrychiolwyr ar y diwrnod?

Ac a wnaiff yr Arweinydd hefyd ymddiheuro am ei ddiffyg cwртеisi ofnadwy tuag at Aelodau Lleol, a sicrhau bod yr Aelodau Ward priodol nid yn unig yn cael gwybod am unrhyw ymweliadau o'r fath yn y dyfodol, ond hefyd, yn unol â chonfensiynau

cyffredin ac Arfer Gorau, sicrhau bod y swyddogion perthnasol hefyd yn ymwybodol o'r gofyniad i gynghori a hysbysu Aelodau Lleol ynghylch unrhyw ymweliadau o'r fath yn y dyfodol, gan Gyngor y Fro yn ogystal ag ymwelwyr allanol, â'u Wardiau perthnasol, a bod gwahoddiadau priodol yn cael eu hanfon at yr Aelodau Ward dan sylw.

Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau.

Nid wyf am ymddiheuro am ymweld yn rheolaidd â llawer o ardaloedd ym Mro Morgannwg fel yr Arweinydd, a hefyd am gyfarfod yn rheolaidd â Gweinidogion Llywodraeth Cymru i drafod materion sydd o ddiddordeb i'r naill ochr a'r llall, lle bynnag y cynhelir y cyfarfodydd hynny, boed y cyfarfodydd wedi'u cynnal drwy wahoddiad gennyf fi neu ganddyn nhw.

(xiv) Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson

Ers sawl blwyddyn, rwyf wedi gofyn cwestiynau yn y Cyngor Llawn ynghylch cefnogaeth y Cyngor hwn tuag at Ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Hoffwn gadarnhau bod fy ngrŵp yn llwyr gefnogi'r cynigion yn Eagleswell yn Llanilltud Fawr. Dyma'r peth iawn i'w wneud.

Sut mae'r Cyngor yn cefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches presennol a'r dyfodol yn y sir i integreiddio'n llwyddiannus a chymryd rhan ym mywyd cymunedol y Fro?

Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Dai'r Sector Cyhoeddus ac Ymgysylltu â Thenantiaid

Mae'r Cyngor yn cyflogi gweithwyr cymorth arbenigol i roi cymorth hanfodol i ffoaduriaid sy'n symud i mewn i Fro Morgannwg. Mae'r cymorth hwn yn canolbwyntio ar unigolion, felly gall staff helpu ffoaduriaid i fanteisio ar gyfleoedd ystyrlon o fewn eu cymunedau.

Deallir bod y cyfleoedd hyn a ffocws ar feithrin rhwydweithiau cymorth lle bynnag y bo modd, er enghraifft drwy ein cwrs Celfyddydau er Budd Llesiant, yn hollbwysig er mwyn integreiddio'n llwyddiannus. Rhennir gwybodaeth am fforymau eiriolaeth i ffoaduriaid a cheiswyr lloches er mwyn sicrhau bod eu safbwyntiau ynghylch y problemau a'r profiadau y maent yn eu wynebu yn cael eu clywed yn lleol, ac yng ngŵydd y rhai sy'n cael eu gwneud penderfyniadau Agwedd hanfodol ar ein cymorth yw helpu'r rhai sydd newydd gyrraedd i ddeall systemau a phrosesau lleol ac ehangach fel bod ganddynt ymdeimlad o reolaeth a dealltwriaeth o'r gymuned / yr Awdurdod Lleol / y Wlad y maent wedi'i g/chyrraedd. Defnyddir cymorth iaith wyneb yn wyneb lle bynnag y bo modd er mwyn sicrhau cyfathrebu ystyrlon ac effeithiol.

(xv) Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson

Beth mae Cyngor Bro Morgannwg yn ei wneud i hyrwyddo Masnach Deg, yn enwedig yn ystod Pythefnos Masnach Deg?

Ymateb gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Leoedd Cynaliadwy

Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r gwaith da sy'n mynd rhagddo ar draws y Sir gan Gynghorau Tref a Chymuned i gefnogi Masnach Deg, a hoffwn ddiolch iddynt am yr hyn sy'n cael ei gyflawni. Roeddwn yn bresennol mewn bore coffi Masnach Deg yng Nghyngor Tref y Barri ddydd Gwener diwethaf, lle rhoesoch anerchiad. Roedd hi'n ddiddorol iawn clywed am y gwaith sy'n cael ei wneud gan Gynghorwyr Tref fel chi, fel Cadeirydd Masnach Deg.

Yn ystod pythefnos Masnach Deg a gynhelir o 27 Chwefror hyd 12 Mawrth eleni, mae'r Cyngor yn rhannu gwybodaeth ar ei gyfryngau cymdeithasol ac rydym hefyd wedi cynhyrchu gwybodaeth i'r staff. Ceir ystyriaethau pwysig yn yr holl ddewisiadau a wnawn, gan gynnwys y bwyd rydym yn ei brynu, ac mae hyn yn gyson â'n hymrwymadau yng Nghynllun Her Prosiect Sero.

Diolch i'r Cynghorydd Dr. Johnson am dynnu sylw at yr achos pwysig hwn ac mae'n rhywbeth yr wyf yn ei gefnogi'n llwyr.

Atodol

Holodd y Cynghorydd Dr. Johnson ynghylch a ellid hyrwyddo bwydydd Masnach Deg o fewn y Cyngor, boed hynny drwy ddefnyddio ei rym fel prynwr, neu ddefnyddio'r rwydweithiau prynu, er enghraifft, y Big Fresh Catering Company i hyrwyddo a defnyddio cynnyrch Masnach Deg lle bo modd.

Dywedodd yr Aelod Cabinet nad oedd yn gallu rhoi ymateb llawn i'r cwestiwn, ond byddai'n barod i ymchwilio i hyn.

(xvi) Cwestiwn gan y Cynghorydd M.J. Hooper

Yng ngoleuni ymrwymadau amrywiol y Cyngor i Brosiect Sero a'i ddatganiad ynghylch yr argyfwng hinsawdd, a allwch amlinellu'r polisi'n gysylltiedig â phlannu coed stryd trefol ar draws ward Baruc, a thu hwnt?

Ymateb gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Leoedd Cynaliadwy

Fel y gwyddoch, mae fy Swyddogion Parciau yn gyfrifol am waith cynnal a chadw coed stryd trefol o ddydd i ddydd ar y briffordd fabwysiedig, ac mewn parciau a mannau agored cyhoeddus. Caiff coed eu cynnal i sicrhau bod unrhyw risg i'r cyhoedd, i gerbydau, i'r seilwaith trafniadaeth neu i eiddo yn cael ei chadw mor isel ag sy'n rhesymol bosib.

Pan gaiff coed eu colli neu eu tynnu o'r briffordd, mae'n annhebygol y bydd coed newydd yn cael eu plannu yn eu lle ar yr un stryd oherwydd cyfyngiadau priffyrdd amrywiol, ond gwneir pob ymdrech i blannu dwy goeden yn yr amgylchedd lleol yn lle pob un a gollir.

Os hoffech drafod coeden, neu goed, penodol yn ward Baruc ymhellach, mae croeso ichi gysylltu'n uniongyrchol â mi.

Atodol

Cyfeiriodd y Cynghorydd Hooper at ddwy goeden ar Heol Romilly a Birch Grove, y Barri, a gyfeiriwyd i'w sylw, a chyfleu pwysigrwydd y coed hyn o ran ymrwymadau Prosiect Sero y Cyngor, a gofynnodd i'r Aelod Cabinet a oedd rheswm dros y gwahaniaeth rhwng yr hyn yr oedd y Cyngor yn ei wneud mewn perthynas â Phrosiect Sero a'r trefniadau i blannu coed newydd yn lle rhai a gollir, a holodd a oedd ystyriaethau cyllidebol yn drech na pholisi.

Dywedodd yr Aelod Cabinet nad felly yr oedd.

(xvii) Cwestiwn gan y Cynghorydd M.J. Hooper

Ac ystyried y rhagfynegiadau ynghylch cynnydd yn lefel y môr wrth i'r hinsawdd ddirywio, sydd weithiau'n destun pryder, a allwch amlinellu strategaethau'r Cyngor i liniaru risgiau llifogydd. Byddwn yn ddiolchgar pe bai modd rhoi ystyriaeth arbennig i'r datblygiadau preswyl a diwydiannol yn y dociau.

Ymateb gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Leoedd Cynaliadwy

Mae gan nifer o wahanol sefydliadau rolau a chyfrifoldebau allweddol yn gysylltiedig â rheoli risg llifogydd ac arfordirol yng Nghymru. Mae'r [Strategaeth Gyffredinol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordirol yng Nghymru](#) (Llywodraeth Cymru, Hydref 2020) yn rhoi crynodeb manwl o'r rolau a'r cyfrifoldebau hyn sy'n amrywio yn ôl ffynhonnell y llifogydd. Mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) rôl oruchwylio strategol ar gyfer yr holl faterion rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru, tra bo CNC, yr holl Awdurdodau Lleol, DC a Llywodraeth Cymru yn gweithredu fel awdurdodau rheoli risg a chanddynt swyddogaethau mwy penodol yn gysylltiedig â rheoli gwahanol risgiau llifogydd.

Oherwydd natur y cwestiwn, a chyda chaniatâd y Cynghorydd, hoffwn wneud cyfiawnder â'r ateb drwy ysgrifennu ato i roi ymateb manwl i'w gwestiwn. Fel arall ni fyddai ond yn cael crynodeb o'r sefyllfa.

792 CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD –

Cyflwynwyd y cwestiynau canlynol ac atebwyd nhw fel y dangosir, yn unol â'r protocol y cytunwyd arno gan y Cyngor ar 5 Mai, 2010.

(i) Cwestiwn gan Mr. R. Curtis

A fyddai'r Cyngor yn barod i fabwysiadu "Polisi Hysbysebu a Noddi Carbon Isel"? Mae hysbysebu yn gwaethygu'r argyfwng hinsawdd drwy greu galw am gynnyrch carbon uchel, fel hediadau sy'n creu llygredd ac SUVs sychedig, yn ogystal â hyrwyddo cwmnïau tanwydd ffosil fel Shell a BP. Yn union fel y penderfyniad i wahardd hysbysebion tybaco ar ôl dod i ddeall y niweidiau'n gysylltiedig â smygu, mae llawer o Awdurdodau Lleol bellach yn gweithredu i roi terfyn ar hysbysebu cynnyrch carbon uchel yn sgil yr argyfwng hinsawdd. Mae Cynghorau Lerpwl, Norwich a Gogledd Gwlad yr Haf oll wedi cymeradwyo cynigion i gyfyngu ar

hysbysebion ar gyfer cynnyrch sy'n difetha'r amgylchedd ar safleoedd hysbysebu sydd o fewn rheolaeth y Cyngorau hynny. Ym mis Awst 2022, gwaharddodd Cyngor Sydney yn Awstralia hysbysebion ar gyfer glo, olew a nwy, a phasiodd Ffrainc ddeddfwriaeth genedlaethol i wahardd hysbysebion tanwydd ffosil hefyd. Mae Amsterdam a phum dinas arall yn yr Iseldiroedd hefyd wedi gweithredu cyfyngiadau ar hysbysebion sy'n creu llygredd sy'n debyg i'r cyfyngiadau ar hysbysebion tybaco. Mae gan Awdurdodau Lleol reolaeth dros y hysbysfyrddau hysbysebu a'r sgriniau digidol sydd wedi'u lleoli ar dir y Cyngor. Gweithredwyr Trafnidiaeth Teithwyr yn aml sy'n rheoli polisiâu hysbysebu ar gyfer hysbysebion ar safleoedd bws a rheilffordd. Ceir hyd i dempled o Gynnig Cyngor ar gyfer Polisi Hysbysebu Carbon Isel yma: <http://badverts.org/s/Model-motion-for-Low-Carbon-Advertising-Policies-Badvertising-2022.pd>. A fydech yn barod i gyflwyno'r Cynnig hwn yn un o gyfarfodydd y dyfodol?

Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau

Mae'n falch gennyf ddweud y bydd y Cyngor yn ystyried hyn yn rhan o waith sydd ar y gweill ar hyn o bryd i ystyried mabwysiadu cymal hysbysebu iachach ym mhrotocol hysbysebu a noddi'r Cyngor, a fyddai'n cyfyngu ar hysbysebu cynnyrch sy'n uchel mewn braster, halen a siwgr mewn asedau neu ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor neu a weithredir gan y Cyngor, yn rhan o'n gwaith rhanbarthol ar Symud Mwy, Bwyta'n Dda gyda chydweithwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Yn rhan o'r gwaith i adolygu'r potensial i gynnwys cyfeiriad pellach at hysbysebion carbon isel, byddwn yn edrych ar yr wybodaeth sydd yn nrafft y cynnig y mae Mr. Curtis wedi'i rannu, oherwydd mae'n bosibl na fydd peth o'r wybodaeth hon yn berthnasol yng nghyd-destun Cymru.

Efallai y bydd y Cyngor yn penderfynu nad oes angen Cynnig er mwyn gweithredu, ac y byddwn yn newid ein protocol hysbysebu a dogfennau caffael cysylltiedig yn lle hynny. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud yn y misoedd nesaf.

(ii) Cwestiwn gan Mr. M. Bowen

Ym mis Rhagfyr 2022, adroddodd Newyddion S4C am 2 blentyn - 8 ac 11 oed - o Wcraïn a oedd wedi llwyddo i ddysgu Cymraeg mewn uned drochi ar Ynys Môn cyn cael eu derbyn yn ddisgyblion yn un o Ysgolion Cynradd Cyfrwng Cymraeg lleol yr Ynys. O safbwynt polisi ac yn ymarferol, beth mae Cyngor Bro Morgannwg wedi'i wneud i ailadrodd y llwyddiant hwn yn ein Sir ni, fel bod plant sy'n cyrraedd o rannau eraill o'r byd yn gallu parhau ar eu taith amlieithog mewn lleoliad Cyfrwng Cymraeg? Pa ganlyniadau a sicrhawyd y llynedd mewn perthynas â'r rhai a gyrhaeddodd y Sir o ran arall o'r byd?

Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg

Mae'r Ganolfan Iaith yn Ysgol Gwaun y Nant wedi cael blwyddyn gyntaf wych, gyda 5 disgybl eisoes wedi trosglwyddo i addysg gynradd Cyfrwng Cymraeg ar ôl treulio tymor yn cael eu trochi yn y Gymraeg. Mae'r Ganolfan wedi ymrwmo i weithio gyda phob disgybl waeth beth fo iaith y cartref, ac eisoes wedi helpu un disgybl sy'n siarad

Sbaeneg a Saesneg gartref i bontio i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg. Efallai eich bod wedi gweld y sylw a roddwyd yn ddiweddar yn y cyfryngau i'r disgybl hwn wrth iddi ymweld â'r Senedd a chyfarfod â Chomisiynydd Plant Cymru, Rocío Cifuentes a'r Gweinidog Addysg a'r Gymraeg, Jeremy Miles.

Mae disgybl arall a ymunodd â'r Ganolfan Iaith y tymor hwn, cyn trosglwyddo i Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg yn yr haf yn hanu o Nigeria ac yn siarad Saesneg fel ail iaith.

Mae ein tîm derbyniadau yn codi ymwybyddiaeth ynghylch y ffaith bod addysg cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg ar gael ymhlith yr holl deuluoedd sy'n cyrraedd yn y Fro o rannau eraill o'r DU, ac o'r tu allan i'r DU. Mae hyn yn cynnwys ein gwesteion o Wcrain a Syria, a rhoddir gwybod i deuluoedd fod gwasanaethau trochi'r Gymraeg ar gael.

(iii) **Cwestiwn gan Mr. R. Curtis**

Mae ymwelwyr â pharc Romilly, Gerddi'r Knap ac ardal gaffi'r Knap yn wynebu perygl cynyddol oherwydd y cynnydd mewn traffig a cheir wedi'u parcio'n wael. Er mwyn atal damwain sy'n cynnwys cerddwyr, a wnaiff Cyngor Bro Morgannwg gynnal arolygon traffig gyda'r nod o osod dwy groesfan sebra rhwng Gerddi'r Knap a chaffis poblogaidd ar hyd Bron y Mor, yn ogystal â chyffordd Heol Parc Romilly a Lakeside sy'n arwain at Barc Romilly (ger y toiledau cyhoeddus)?

Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu

Mae'r Cyngor yn derbyn ceisiadau rheolaidd i ddarparu croesfannau er mwyn hwyluso mynediad saffach at safleoedd bws a gwasanaethau, ac ystyried y cynnydd mewn traffig.

Bydd ceisiadau o'r fath bob amser yn cael eu hystyried yng nghyd-destun diogelwch defnyddwyr ffordd, ac o ganlyniad i hynny mewn cysylltiad â'r Heddlu sy'n cofnodi gwrthdrawiadau lle ceir anafiadau personol (GAP).

Dengys cofnodion GAP am y cyfnod o dair blynedd hyd 29 Rhagfyr, 2021 (y data diweddaraf a ddarparwyd inni gan Lywodraeth Cymru) ar gyfer yr ardaloedd y cyfeirir atynt ym Mron y Môr a ger Heol Parc Romilly, na chafwyd unrhyw wrthdrawiadau anaf personol yn y lleoliadau dan sylw dros y cyfnod hwnnw. Mae hynny bod lefel resymol o ddiogelwch ar y ffordd.

O ran parcio, ceir cyfyngiadau parcio ar y rhan fwyaf o Ffyrdd Bron y Môr a Lakeside sy'n ffinio â Gerddi'r Knap, yn ogystal â'r ardal ger cyffordd Heol Parc Romilly a Lakeside sy'n blaenu ar y toiledau cyhoeddus a'r giât fynediad i Barc Romilly, sydd o gymorth i atal parcio amhriodol.

Mae tîm gorfodi parcio'r Cyngor yn gynnal patrolau wedi'u hamserlennu i sicrhau cydymffurfio â'r cyfyngiadau parcio hyn, hyd y bo'n rhesymol ymarferol.

Ac ystyried hyn oll, nid oes unrhyw dystiolaeth bod angen ymyraethau diogelwch na chyfleusterau croesi rheoledig pellach ar hyn o bryd, ond cadarnhaf y byddwn yn

parhau i fonitro'r sefyllfa, yn ôl ein harfer, a chymryd unrhyw gamau priodol i ymdrin ag unrhyw faterion diogelwch sy'n dod i'r amlwg.

(iv) **Cwestiwn gan Mrs. K. Glover**

Hoffwn ofyn a yw'r Cyngor yn cydnabod bod Rhandiroedd yn cael eu defnyddio i dyfu bwyd ar gyfer ein byrddau, i helpu ein hiechyd meddwl ac i gynnig cwmniâeth i bobl hŷn a phobl sy'n agored i niwed sy'n teimlo'n unig? Sut mae'r Cyngor yn teimlo ei bod yn gyfiawn cyflwyno cynnydd o 72% i renti'r rhandiroedd a ninnau yng nghanol argyfwng costau byw, argyfwng iechyd meddwl ac argyfwng unigrwydd. Pam na ellir cyflwyno'r cynnydd fesul cam dros gynllun 5 mlynedd? Beth fydd y Cyngor yn ei wneud i ddiogelu rhag codiadau rhent ar y raddfa hon yn y dyfodol?

Ymateb gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Leoedd Cynaliadwy

Rwy'n ymwybodol iawn o werth cymdeithasol rhandiroedd, ac nid ar chwarae bach y gwnaethom benderfynu cynyddu'r ffioedd cyfredol. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn darparu cymhorthdal ar gyfer rhandiroedd y Barri a'r Rhws, gan nad yw'r ffioedd a godir yn ddigon i dalu'r costau cynnal a chadw ar eu cyfer. Ceir incwm o oddeutu £20k o'r rhandiroedd hyn, ond mae'n costio oddeutu £34k i'w darparu a'u cynnal. Yn anffodus, nid yw'r sefyllfa hon yn gynaliadwy ar hyn o bryd.

Wrth drafod cyllideb 2023/24 cafwyd disgrifiad di-flewyn-ar-dafod o sefyllfa ariannol lom yr Awdurdod Rydym yn wynebu diffyg o oddeutu £9 miliwn, ac er mwyn i'r rhandiroedd ddatblygu i fod yn hunangynhaliol, cynigir cynyddu'r ffi fesul llain o £6.50 i £11.20 y flwyddyn. Mae hyn yn unol â Rhandiroedd y Cyngor yn y Bont-faen, lle codir ffi o £14 fesul llain bob blwyddyn ar hyn o bryd. Mae'r rhan fwyaf o rhandiroedd yn cynnwys 10 llain, felly yn achos y Barri a'r Rhws, mae hyn yn gyfystyr â 90c yr wythnos yn ychwanegol fesul rhandir.

Nid yw'r Cyngor yn dymuno achosi caledi ariannol i unrhyw un. Gall deiliaid rhandiroedd wneud cais i haneru maint eu rhandir. O wneud hynny byddai eu ffioedd rhandir yn llai na'r hyn a dalwyd am 2022/23. Fel arall, gallai deiliaid rhandir gyflwyno cynnig i'r Cyngor i sefydlu Cymdeithas Rhandir. Byddai hyn yn golygu cymryd drosodd y gwaith o reoli a chynnal y safle oddi wrth y Cyngor, gan olygu na fyddai unrhyw ffioedd yn cael eu codi o gwbl. Byddai'r Gymdeithas yn talu'r holl gostau cysylltiedig, ac yn gyfrifol am osod y lleiniau.

(v) **Cwestiwn gan Mrs. K. Glover**

Hoffwn ofyn pam bod camau'n cael eu cymryd i sicrhau na chaiff preswylwyr y Bont-faen eu gwrthannog rhag cyfrannu i wneud y Fro yn Wyrddach, heb roi'r un ystyriaeth i weddill y Fro? Pam bod y risg o ostyngiad yn y galw am rhandiroedd yn bwysicach yn y Bont-faen nag yng ngweddill y Fro? Nodir yn glir yng nghynnig y gyllideb fod y Bont-faen yn cael triniaeth ffafriol ac mae hynny'n hynod o annheg.

Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Ymgysylltiad Cymunedol, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddio

Diolch ichi am eich cwestiwn Mrs. Glover. Rydym am i holl ddeiliaid ein rhandiroedd barhau i gyfrannu tuag at wneud Bro Morgannwg yn lle gwyrddach. Yn sicr, nid yw deiliaid ein rhandiroedd ar safle'r Bont-faen yn cael triniaeth ffafriol yn hyn o beth. Nid yw costau'r rhandiroedd yn y lleoliad hwn yn cynyddu am eu bod eisoes yn uwch na'r pris sydd ei angen i fantoli cyllideb ein rhandiroedd yn y Barri a'r Rhws.

(vi) Cwestiwn gan Mr. R. Curtis

Bydd y 67% a gynigiwyd o godiad rhent yn y Barri a'r Rhws y golygu y bydd llawer o ddeiliaid rhandir tlotach, sydd yn aml wedi bod yn trin eu llain ers blynyddoedd, yn cael eu gorfodi i ildio eu rhandir oherwydd y gost ychwanegol. Credaf nad yw'r lefel hon o godiad rhent yn gymesur â'r codiadau ffi eraill a gafwyd o fewn y Cyngor, fel taliadau parcio ceir, rhenti tai Cyngor neu'r Dreth Gyngor, ac mai'r rhai ar yr incymau isaf a fydd yn dioddef fwyaf. Nid oedd erioed unrhyw fwriad i godi rhent economaidd ar rhandiroedd - roeddent, ac maent, yn creu budd cymdeithasol ac amgylcheddol. Byddai codi'r rhent yn unol â chwyddiant yn rhesymol ond nid yw'n iawn o gwbl gwneud i ddeiliaid rhandir lenwi'r bwlch yng nghyllideb y Cyngor. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod rhwymedigaeth glir i gyrrff cyhoeddus alluogi newid er gwell sy'n arwain at Gymru sy'n fwy cydnerth, cynaliadwy, diogel ac iach. Yn y Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol a Chynghorau Tref a Chymuned a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru nodir yn glir ar dudalen 8 o dan Gostau a thaliadau: "Dylid gosod llain rhandir am y cyfryw rent ag y gellir disgwyl yn rhesymol i denant ei thalu am y tir (Deddf Rhandiroedd 1950 adran 10). Er y gall fod temtasiwn i gynyddu rhenti er mwyn talu cost darparu rhandiroedd, efallai y bydd hyn yn atal yr union bobl y mae angen rhandiroedd arnynt fwyaf rhag eu cael. Dylai rhenti fod yn unol â'r cyfartaledd cenedlaethol, sef £45 y flwyddyn am lain lawn (yn gywir ym mis Ebrill 2020) a chaiff yr awdurdod ddewis a fydd yn cynnig cyfraddau consesiynol ai peidio." Yng ngoleuni'r uchod, a wnaiff y Cyngor roi'r gorau i'r cynnig i gynyddu rhenti rhandiroedd a chynyddu rhenti'n unol â chwyddiant yn lle hynny?

Ymateb gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Leoedd Cynaliadwy

Diolch am eich cwestiwn Mr. Curtis. Nid yw'r cynnig i gynyddu'r ffioedd rhandir yn y Barri a'r Rhws yn ymgais i lenwi'r bwlch yng nghyllideb y Cyngor. Bydd y cynnydd yn galluogi'r gwasanaeth i'w ariannu ei hun, gan roi gwell sicrwydd iddo fel adnodd gwerthfawr er budd cenedlaethau'r dyfodol. Dylid nodi bod y rhan fwyaf o rhandiroedd yn cynnwys 10 o leiniau, felly yn y Barri â'r Rhws, mae'r newid mewn ffioedd yn gyfystyr â 90c yn ychwanegol bob wythnos.

Mae gennym eisoes gyfraddau consesiynol i breswylwyr sy'n 65 oed neu'n hŷn, lle ceir gostyngiad o 25% i'r ffi, a bydd y consesiwn hwn yn parhau. Nid yw'r Cyngor yn dymuno achosi caledi ariannol i unrhyw un. Gall deiliaid rhandiroedd wneud cais i haneru maint eu rhandir. O wneud hynny byddai eu ffioedd rhandir yn llai na'r hyn a dalwyd am 2022/23. Mae gennym rhandiroedd sy'n cynnwys rhwng 3 a 12 llain ar hyn o bryd, gyda'r mwyafrif ohonynt yn 10 llain.

Fel y dywedais eisoes wrth ymateb i gwestiynau cynharach am yr un pwnc, fel opsiwn arall yn lle talu ffi uwch neu newid maint eu llain, gallai deiliaid rhandiroedd gysylltu â'r Cyngor i gynnig sefydlu Cymdeithas Rhandir. Byddai hyn yn golygu cymryd drosodd y gwaith o reoli a chynnal y safle oddi wrth y Cyngor, gan olygu na fyddai unrhyw ffioedd yn cael eu codi o gwbl. Byddai'r Gymdeithas yn talu'r holl gostau cysylltiedig, ac yn gyfrifol am osod y lleiniau.

(vii) **Cwestiwn gan Mrs. N. Chivers**

Allwch chi ddweud wrthym pryd fydd y TCC yn weithredol yn y Barri? Mae Heddlu De Cymru o hyd yn gofyn am gael gweld fy nghyfarpar TCC, ac nid fy nghyfrifoldeb i yw hynny yn fy marn i. Gallai hyn achosi risg i'r staff ac i mi fy hun. Ni ddylid dibynnu ar aelod o'r cyhoedd i gael deunydd wedi'i ffilmio, yn enwedig pan fo camerâu TCC wedi'u gosod ar Broad Street ac yn ardaloedd eraill o'r Dref. Byddai hynny o gymorth i wasgaru gweithgarwch delio cyffuriau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhlith troseddau eraill a geir ar Broad Street yn unig. Ydych chi'n gwybod pryd y byddant yn weithredol? Rwyf wedi bod yn siarad â Heddlu De Cymru sy'n dweud nad ydynt ond yn disgwyl am Gyngor Bro Morgannwg? Ydy hyn yn wir?

Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Ymgysylltiad Cymunedol, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddio

Diolch am eich cwestiwn, Mrs. Chivers. Yn anffodus, mae'n ymddangos bod yr wybodaeth a gawsoch gan Heddlu De Cymru yn anghywir. Mae'r camerâu TCC yn ardal Broad Street / Y Stryd Fawr oll wedi'u huwchraddio ac yn gwbl weithredol. Caiff y camerâu eu monitro bob awr o'r dydd gan weithredwyr TCC cymwys a phrofiadol, a chanddynt gyswllt radio uniongyrchol â'r Heddlu lleol. Mae'n arferol i'r Heddlu wirio'r holl camerâu TCC, gan gynnwys ffilm o gamerâu ar gartrefi, siopau, blaen ceir ac ati os ceir digwyddiad o fewn eu cwrmpas gan fod hynny'n helpu'r Heddlu i gynnal eu hymchwiliad. Nid yw hyn yn arwydd o unrhyw fethiant yn system TCC y Cyngor.

(viii) **Cwestiwn gan Mr. P. Britton**

A oes unrhyw gynlluniau i uwchraddio'r capasiti cyhoeddus i wefru ceir trydan yn y Barri, mae'r ddarpariaeth yn wael ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd nid oes ond 3 chyfleuster gwefru cyflym yn y Barri. Nid oes gan lawer o breswylwyr y Barri y moethusrwydd o gael eu tramwyfa eu hunain i wefru car trydan. A yw'r Cyngor yn mynd i agor y gwefrwyr a osodwyd ganddynt yn ddiweddar wrth ymyl Canolfan Hamdden y Barri, i'w defnyddio gan breswylwyr? Pam nad oes modd defnyddio rhai pwyntiau gwefru yn y Barri, a hynny fisoedd ar ôl eu gosod?

Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i archwilio cyfleoedd i leihau allyriadau o drafndiaeth, a strategaeth gyfredol y Cyngor yw cydweithio â Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd ar osodiadau Gwefru Cerbydau Trydan.

I ddechrau, gwnaethom ganolbwyntio ar ddarparu 8 o bwyntiau gwefru cerbydau trydan ar gyfer tacsis mewn lleoliadau allweddol o fewn y Barri, ac mae'r Cyngor ar

hyn o bryd yn gweithio i osod 18 o bwyntiau gwefru cerbydau trydan cyhoeddus wedi'u lleoli'n bennaf yn ei feysydd parcio oddi ar y stryd ledled y Fro. Mae hyn yn cynnwys 10 o leoliadau yn y Barri ac ardaloedd canol tref, a chyrchfan Ynys y Barri - rydym yn dal i ddisgwyl am gysylltiadau trydan wedi'u rhaglennu ar gyfer y gosodiadau hyn, cyn iddynt ddod yn weithredol. O ran y cyfleusterau gwefru a osodwyd yn ddiweddar ger y Swyddfeydd Dinesig, ar hyn o bryd bwriedir i fflyd o gerbydau trydan y Cyngor ddefnyddio'r rhain. Fodd bynnag, rydym yn ystyried opsiynau a logisteg yn gysylltiedig â chaniatáu i staff a'r cyhoedd ddefnyddio'r pwyntiau gwefru hyn ymhen amser.

Cam 2 y broses o gyflwyno Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan ar safleoedd ger canolfannau cymuned lleol ledled y Fro. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn cynnal ymarfer ymgynghori yn y lleoliadau hyn. Mae 10 lleoliad arall wedi'u nodi yn y Barri ar gyfer y gosodiadau hyn, ond mae'r rheiny'n ddibynnol ar ganlyniad y broses ymgynghori.

Yn y gorffennol, cwblhaodd y Cyngor brosiect wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru i asesu arfer gorau wrth wefru ar y stryd, ac i nodi lleoliadau posibl ar gyfer seilwaith gwefru ar y stryd yn y dyfodol. Bydd y prosiect hwn yn ein helpu i sicrhau bod cyfleusterau gwefru cerbydau trydan diogel a hygyrch ar gael ac wedi'u darparu ledled y Fro, gan gynnwys y Barri, yn enwedig mewn ardaloedd sy'n cynnwys rhesdai heb le i barcio oddi ar y ffordd.

Nod cyffredinol y polisi fydd sicrhau bod cyfleusterau a chyfarpar gwefru cerbydau trydan ar gael, a'u bod ar gael fel rheol mewn mannau cyfleus, priodol, teg, hygyrch a chadarn i breswylwyr Bro Morgannwg.

(ix) **Cwestiwn gan Mrs. L. Hay**

Sut y gall masnachwyr a'r Cyngor gydweithio'n well. Pryd y byddant yn cynnal cyfarfod â'r masnachwyr i gydweithio a'n gwneud yn ymwybodol o gynlluniau'r dyfodol? Mae'n bwysig cael cefnogaeth gan fasnachwyr.

Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau

Mae Swyddogion o Dîm Adfywio'r Cyngor wedi bod yn bresennol yn rheolaidd mewn cyfarfodydd ar draws holl drefi'r Fro, ac mae hyn yn gyfle i gynnal trafodaeth a rhannu gwybodaeth y naill â'r llall.

Mae'r Cyngor hefyd yn bwriadu ymuno â Siarter Creu Lleoedd Llywodraeth Cymru lle bydd Cynlluniau Creu Lleoedd yn cael eu creu ar gyfer pob un o'r 4 canol tref yn y Fro. Mae gwaith ar Gynllun Creu Lleoedd y Barri eisoes wedi dechrau, a bwriedir cynnal digwyddiadau ymgysylltu yn y gwanwyn a fydd yn cyfrannu at ddatblygiad y cynllun. Bydd yr ymgysylltu hwn yn cynnwys y gymuned a busnesau lleol.

Yn olaf, yn amodol ar gytuno ar gyllid, bydd y Cyngor yn cefnogi cynlluniau ar gyfer digwyddiadau ym mhob Tref, a bydd trafodaethau'n cael eu cynnal â Chynghorau Tref a chyrrff masnach ar ôl sicrhau cyllid ar gyfer hyn.

Hoffwn ychwanegu fy mod wedi derbyn 2 wahoddiad i gyfarfod â phobl fusnes, ac rwy'n gobeithio cyflawni'r rheiny yn yr wythnos neu ddwy nesaf.

(x) **Cwestiwn gan Mrs. L. Y Gelli Gandryll**

Pwy sy'n creu cynllun adfywio ar gyfer Heol Holton? Pam nad oes rhywun o fusnes lleol yn cynrychioli Canol y Dref yn lleol, ac a gaiff masnachwyr gyfarfod â'r Cyngor iddo gael clywed ein pryderon.

Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau

Dros sawl blwyddyn, mae'r Cyngor wedi ceisio gwella ymddangosiad a chymeriad Heol Holton, drwy ychwanegiadau tirweddu caled a meddal. Mae gwaith hefyd wedi cael ei wneud i ddatblygu cyfleoedd i wneud Heol Holton yn wyrddach, ac yn rhan o hyn rydym wedi cyfarfod a chysylltu â busnesau a masnachwyr.

Gan edrych i'r dyfodol, bydd y Cynllun Creu Lleoedd yn amlygu canol y dref fel ardal â blaenoriaeth, a byddai hyn yn cynnwys Heol Holton. Bydd gwaith ymgysylltu ac ymgynghori yn digwydd dros y misoedd nesaf er mwyn datblygu'r cynllun. Wrth ddatblygu Cynlluniau Creu Lleoedd, rydym yn cydnabod y gallem fod yn trafod yr holl ganol trefi. Fodd bynnag, mae pob canol tref yn wahanol iawn, a bydd angen i'r cynlluniau hynny adlewyrchu'r gwahaniaeth hwnnw hefyd.

(xi) **Cwestiwn gan Mrs. L. Hay**

Pryd fydd Heol Holton yn cael ei gwella?

Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau

Gwelwyd buddsoddiad ar dir y cyhoedd, ac ar ffurf seilwaith gwyrdd ar Heol Holton, cyn ac ar ôl y pandemig. Yn ogystal â hynny, mae cyllid grant ar gael drwy'r gronfa Trawsnewid Trefi i adnewyddu adeiladau gwag ac wedi'u tanddefnyddio, ac rydym wedi gweld sawl enghraifft o hyn yn y blynyddoedd diwethaf, ac rydym ar hyn o bryd yn cydweithio â pherchnogion eiddo gwag ar nifer o gynlluniau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Mae darparwydd marchnad newydd wedi dechrau gweithredu ar Sgwâr y Brenin, a'r gobaith yw denu digwyddiadau eraill i'r sgwâr y sgil hynny.

Yn olaf, mae'r rhan o Ganol y Dref sy'n cynnwys Heol Holton yn ardal â blaenoriaeth yn y Cynllun Creu Lleoedd sydd ar ddod ar gyfer y Barri, ond rhaid nodi y bydd unrhyw welliannau a gynigir yn amodol ar sicrhau cyllid.

(xii) **Cwestiwn gan Mr. M. Wallis**

Gan fod yr asesiadau arbenigol o safle datblygu Cei'r Dwyrain, safle Codi Glo a safle Biomas y Barri yn cytuno ar lefel perygl llifogydd o 8.8 i 9.0 metr uwch datwm ordnans, a wnaiff y Cyngor hysbysu CNC y dylai fod yn defnyddio'r ffigur hwn ar

gyfer ei Fap Llifogydd ar gyfer Cynllunio mewn perthynas â holl ddociau'r Barri, yn hytrach na'r lefel a nodwyd ganddynt o oddeutu 7.8 metr?

Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu

Nid cyfrifoldeb y Cyngor yw hysbysu CNC ynghylch y lefelau y dylai fod yn eu defnyddio ar gyfer y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio, a dylid cyfeirio'r ymholiad hwn i sylw CNC, sef y corff statudol sy'n gwneud sylwadau ynghylch perygl llifogydd.

(xiii) Cwestiwn gan Mr. D. Clarke

Yn nogfennau amrywiol Cyngor y Fro a gyflwynwyd yn yr Apêl Cynllunio yn erbyn yr hysbysiad gorfodi, ni dderbynnir o gwbl fod y cyfleuster ar Heol Woodham, sy'n eiddo i is-gwmni i Aviva, wedi'i gynnwys o fewn y diffiniad o Losgydd, ac nid yw'r Cyngor ar unrhyw bryd yn cadarnhau bod angen cynnal Asesiad Effaith Amgylcheddol llawn ar y cyfleuster. A all y Cyngor gyfleu'n glir wrth breswylwyr y Barri fod Cyngor Bro Morgannwg yn llwyr dderbyn mai llosgydd yw'r cyfleuster, ac y bu angen cynnal Asesiad Effaith Amgylcheddol arno o'r cychwyn.

Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau

Mae'r apêl a gyflwynwyd gan yr apeliwr wedi'u cefnogi gan Asesiad Effaith Amgylcheddol, yn dilyn cyfarwyddyd sgrinio a gyhoeddwyd gan PEDW ar 13 Ionawr, 2022. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn ymwneud â'r datblygiad fel y cafodd ei adeiladu (sy'n destun yr apel yn erbyn gorfodi)

Ceir hanes cymhleth i'r cyfarwyddiadau sgrinio sy'n gysylltiedig â'r ceisiadau cynllunio blaenorol. Ar y pryd, roedd Llywodraeth Cymru'n sgrinio'r cynigion fel datblygiad nad oedd angen iddo fod yn destun AEA. Nid yw'r ystyriaeth ynghylch a oedd y cynigion blaenorol yn ddatblygiad AEA ai peidio yn berthnasol wrth ystyried rhinweddau'r datblygiad cyfredol, na'r apêl sydd ar y gweill.

(xiv) Cwestiwn gan Mr. D. Clarke

Yn rhan o'r achosion apêl wedi i'r Cyngor gyflwyno'r Hysbysiad Gorfodi ynghylch y Llosgydd ar Heol Woodham, mae Cyngor Bro Morgannwg wedi cytuno ar y canlynol â pherchnogion y Llosgydd: "Cafodd yr egwyddor o waith ynni adnewyddadwy drwy losgi coed ei sefydlu ar Safle'r Apêl drwy Ganiatâd 2010, a'i ailsefydlu drwy Ganiatâd 2015." A all y Cyngor gadarnhau nad oedd y cytundeb a sefydlodd â pherchnogion y llosgydd yn gyfystyr â chytuno bod yr egwyddor o losgydd ar y safle hwn wedi'i sefydlu yn 2010 a 2015, gan gad mewn cof na fynnwyd unrhyw Asesiad Effaith Amgylcheddol, er bod angen asesiad o'r fath er mwyn gwneud y penderfyniadau hyn yn gyfreithiol? Esboniad y sail dros y penderfyniad os nad yw'r Cyngor yn cytuno â'r gosodiad hwn.

Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau

Mae'r Datganiad Tir Cyffredin yn cyfeirio at yr egwyddor o 'waith ynni adnewyddadwy drwy losgi coed', ac nid yw'r DTC yn trafod a oedd y datblygiad fel y byddai'n cael ei adeiladu (na chynigion penodol blaenorol) yn ddatblygiad AEA. Mae'n bosibl i ddatblygiad ynni (yn dibynnu ar ei union natur - maint y mewnbwn bob dydd, er enghraifft) beidio bod yn ddatblygiad AEA.

Yn sgil hynny, nid yw'r DTC yn awgrymu unrhyw gasgliad ynghylch a ddylai asesiadau effaith amgylcheddol fod wedi cael eu cyflwyno i gyd-fynd â'r ceisiadau blaenorol, ac ni ystyrir bod unrhyw gytundeb ynghylch egwyddor gyffredinol datblygiad diwydiannol o'r math hwn mewn lleoliad diwydiannol, yn ddibynnol ar yr ystyriaeth ynghylch a oedd/oes angen AEA. Nid yw cynnwys y DTC yn niweidio safbwynt y Cyngor mewn perthynas â'r datblygiad sydd wedi cael ei adeiladu, nac yn rhagfarnu a yw'r effeithiau amgylcheddol yn dderbyniol ai peidio.

(xv) Cwestiwn gan Mrs. C. Ockerby

Ar ran Beautiful Barry, pryd fydd y polion yn cael eu trwsio ar Sgwâr y Brenin i atal ceir a faniau rhag parcio ar y Sgwâr bob dydd?

Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau

Wedi i fandaliaid ddifrodi rhai o'r polion, rydym wedi archebu polion newydd, ac fe'u gosodir cyn gynted ag y byddwn yn eu derbyn. Ar ôl i'r polion newydd gael eu gosod, ni fyddant ond yn cael eu gostwng er mynediad i'r Farchnad ac ar gyfer Staff y Parciau. Ni chaniateir mynediad arall i gerbydau i'r Sgwâr.

(xvi) Cwestiwn gan Mrs. C. Ockerby

Ar ran Beautiful Barry – Rydym yn ymwybodol mai dim ond mewn rhai amgylchiadau y bydd y Cyngor yn cael gwared â graffiti, ond yn sgil y cynnydd mewn graffiti o amgylch y dref, a all y Cyngor gysylltu â pherchnogion busnes i ofyn iddynt gael gwared â graffiti oddi ar eu heiddo, gan gynnig opsiynau i'w cefnogi i wneud hynny?

Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau

Bydd y Cyngor yn cael gwared ag unrhyw graffiti sy'n hiliol neu'n ymosodol fel arall oddi ar unrhyw eiddo cyn pen 24 awr. Gyda chytundeb perchennog yr adeilad, rydym hefyd yn barod i gael gwared â graffiti arall ar eiddo preifat, ond dim ond mewn amgylchiadau penodol.

Yn ei hanfod, cyfrifoldeb perchennog yr eiddo preifat yw amddiffyn eiddo preifat, ac ni fyddai'n briodol defnyddio arian o'r Dreth Gyngor i wneud gwaith o'r fath, lle gallai fod gan berchennog yr eiddo preifat y modd i drefnu'r gwaith drosto'i hun. Os byddwn yn gwneud gwaith o'r fath, byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i berchennog yr eiddo preifat ein hindemnio rhag unrhyw golled neu ddifrod posibl.

I ofyn am y gwasanaeth hwn, dylai busnes gysylltu â Chanolfan Alwadau'r Cyngor a bydd Swyddog yn trafod yn uniongyrchol â'r busnes hwnnw ac yn asesu'r graffiti, a bydd gwasanaeth i gael gwared â'r graffiti, neu gyngor addas, yn cael ei gynnig lle bo modd. Y gwir anffodus yw nad oes gennym yr adnoddau i gysylltu â pherchnogion eiddo preifat i gynnig y gwasanaeth hwn mewn modd rhagweithiol. Yn aml, yn ogystal ag amser swyddogion, byddai hyn yn golygu talu ffi i'r Gofrestrfa Tir i gadarnhau manylion perchnogaeth y tir.

(xvii) **Cwestiwn gan Mrs. C. Ockerby**

Beth yw'r drefn lanhau bresennol ar gyfer Heol Holton, ac a ellid gwella hyn i fynd i'r afael â baw ci a bonion sigarét, sy'n broblem barhaus ac yn difetha'r dref gan greu argraff ofnadwy ar ymwelwyr? Mae'r sbwriel parhaus o amgylch y Ganolfan Hamdden a'r Swyddfeydd Dinesig hefyd yn destun pryder mawr, ac nid yw'n ymddangos fel pe bai'n cael ei glirio o gwbl, ac nad oes unrhyw beth yn cael ei wneud i atal hyn rhag digwydd. Pwy sy'n gyfrifol am yr ardal hon o'r dref?

Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau

Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth glanhau strydoedd yn unol â Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer Sbwriel a Gwastraff. Mae'r Cod yn nodi lefelau amrywiol o lanhau ac ymateb ar gyfer ardaloedd mewn parthau wedi'u pennu ymlaen llaw.

O dan y drefn hon, caiff canol y dref ei glanhau'n ddyddiol gan staff y Cyngor, gyda chymorth cerbyd sgubo mecanyddol. Caiff yr ardaloedd o amgylch y Ganolfan Hamdden a'n Swyddfeydd Dinesig eu glanhau'n llai aml, ond yn wythnosol.

Yn sgil eich sylwadau, Mrs. Ockerby, rwyf wedi gofyn i Adran Lanhau'r Cyngor archwilio'r holl ardaloedd hyn i sicrhau bod y trefniadau glanhau a gorfodi cyfredol yn ddigonol.

(xviii) **Cwestiwn gan Mr. M. Wallis**

Pam bod yr Arweinydd wedi cyfeirio at stori Clinig Tavistock fel "sefyllfa cwbl wahanol" wrth gyflwyno drafft y Pecyn Cymorth Cynhwysiant Trawsrywiol - roedd Adolygiad Cass, o dan y pediatregydd blaenllaw Hilary Cass, sy'n cysylltu'r naill a'r llall, wedi'i ddyfynnu yn y Pecyn Cymorth, ond mae peidio cynnwys rhybuddion Cass ynghylch trawsnewid cymdeithasol yn ei bresgripsiynau'n broblemus?

Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau

Canllawiau yw drafft y Pecyn Cymorth i Ysgolion ar Gynhwysiant Trawsrywiol. Fe'i hanelir at weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn ein lleoliadau addysg er mwyn helpu pobl ifanc a'u teuluoedd, ac nid yw'n anelu i ddatrys materion yn gysylltiedig â thrawsnewid cymdeithasol. Mae ymgynghoriad eang yn cael ei gynnal ar ddrafft y Pecyn Cymorth. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 17 Mawrth, 2023 a byddwn yn croesawu cyfraniadau yn ystod y broses ymgynghori.

(xix) **Cwestiwn gan Mrs.C. Ockerby**

Ar ran Beautiful Barry – Pa gynlluniau y mae'r Cyngor yn eu rhoi ar waith ar gyfer tymor yr haf i atal pobl rhag gollwng sbwriel yn Ynys y Barri ac mewn cyrchfannau gwyliau eraill, i hyrwyddo'r defnydd o finiau, ac i greu cyhoeddusrwydd ynghylch y defnydd o Swyddogion Gorfodi a chosbau am droseddau gollwng sbwriel?

Ymateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau

Yn y cyfnod sy'n arwain at y tymor ymdrochi, mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol i dynnu sylw at effaith sbwriel ar ein traethau, ac i annog pobl i ddefnyddio biniau sbwriel, yn ogystal â gwella cyfleusterau ailgylchu. Yn ychwanegol hyn, mae'n beth da bod mwy o grwpiau codi sbwriel gwirfoddol yn cyfrannu at y gwaith o lanhau'r traeth a'r gyrchfan, ac mae'r Cyngor yn anelu i gydweithio'n agosach â'r rhain ac i ymgysylltu mwy ag ymwelwyr er mwyn ceisio atal a lleihau achosion o ollwng sbwriel hyd yr eithaf. Rwy'n cyfaddef fod hyn yn her aruthrol, ac yn draenio adnoddau ariannol a dynol.

Yn ddiweddar hefyd, sefydlodd Tîm Gorfodi'r Cyngor Uned Troseddau Gwastraff weithredol yn rhan o'i ymagwedd strategol at sbwriel a thipio anghyfreithlon, ac mae'n bwriadu sicrhau bod swyddogion yn bresennol yn fwy rheolaidd eleni mewn lleoliadau ar draethau ac mewn cyrchfannau.